Adroddiadau Cyllidol

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

Adolygiad Gweithredu ac Ariannol ..... Tudalennau 2-6

Llywodraeth Gorfforaethol ..... Tudalennau 7-8

Cyfrifoldebau'r Cyngor ..... Tudalennau 9-10

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ..... Tudalennau 11-12

Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol ..... Tudalen 13

Adroddiad ar Ddiffygion a Gweddillion Costau Hanesyddol Cyfunol..... Tudalen 14

Adroddiad o Gyfanswm Enillion a Diffygion Cydnabyddedig ..... Tudalen 14

Mantolen ..... Tudalennau 15-16

Adroddiad Llif-Arian Cyfunol ..... Tudalen 17

Nodiadau'r Cyfrifon ..... Tudalennau 18-46

Atodiad – Cymarebau ..... Tudalen 47

Adolygiad Gweithredu ac Ariannol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

Y Brifysgol mewn Cyd-destun

Sefydlwyd Prifysgol Bangor ym 1884 a'i chenhadaeth heddiw yw bod yn brifysgol sydd ymhlith goreuon y byd, lle mae ymchwil yn flaenoriaeth, darparu addysgu a dysgu o'r radd flaenaf a chyfrannu at ddatblygu economi, iechyd a diwylliant Cymru gynaliadwy a byd cynaliadwy. Mae'r Brifysgol yn chwarae rhan bwysig yn ninas Bangor ac yng nghymuned ehangach Gogledd Cymru fel darparwr addysg uwch, canolbwynt ymchwil o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol, arweinydd mewn gweithgareddau trosglwyddo technoleg i fusnes a chyflogwyr, ysgogydd ar gyfer buddsoddi ac adfywio mewnol a hyrwyddwr yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Fel gweddill y sector Addysg Uwch ym Mhrydain, mae'r Brifysgol yn gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol iawn, gartref a thramor, ac mewn marchnad addysg uwch gynyddol fyd-eang. Mae'r Brifysgol wedi llwyddo i gyflawni sawl her allweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, megis cynyddu nifer y myfyrwyr cartref a thramor y mae'n eu recriwtio, cyfnerthu ei sefyllfa ariannol ac ymestyn ei seiliau ymchwil, ac mae'n edrych ymlaen at ganlyniad cadarnhaol o'r Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE 2008) pan gaiff y canlyniadau eu rhyddhau ddiwedd y flwyddyn galendr hon. Fodd bynnag, mae cyfnod o gynnwrf ariannol a dirwasgiad tebygol, ynghyd â thueddiadau demograffig anffafriol gartref, yn debygol o gynyddu pwysau cystadleuol ac mae'r Brifysgol yn datblygu strategaethau i ddelio â'r rhain.

Amlinellodd cynllun strategol y Brifysgol, 'Cynaladwyedd trwy Ragoriaeth', lwybr newydd ar gyfer Bangor – agenda ar gyfer newid trawsffurfiol. Cyflawnwyd tu hwnt i'r disgwyl gyfeiriad strategol newydd, ailstrwythuro staff, buddsoddi ar gyfer yr RAE a sefydlu fframweithiau academaidd a rheolaethol newydd. Bydd cam nesaf y newid sylfaenol hwn yn canolbwyntio ar brojectau mawr i roi rhagoriaeth mewn ymchwil a chryfhau sylfaen academaidd y Brifysgol ymhellach. Mae adolygiad academaidd llawn wrthi'n cael ei gynnal a bydd yn ysbrydoli cynllun strategol newydd i'w gwblhau erbyn Gorffennaf 2009.

Erbyn hyn sefydlwyd y chwe choleg, sef Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad, Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol, Y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith ac Addysg a Dysgu Gydol Oes ac mae Penaethiaid pob Coleg wedi'u penodi. Erbyn hyn mae gan bob Coleg fframweithiau gweinyddol a rheoli integredig.

Ein nod fel Prifysgol yw rhoi pwyslais cynyddol ar ymchwil a chynhyrchu diwylliant ymchwil cynhyrchiol, bywiog a chynaladwy. Perfformiad ymchwil cadarn yw'r ffordd sicraf i gael rhagoriaeth gynaladwy mewn ymchwil, ond bydd angen rhoi sylw manwl i'r hinsawdd ariannol yn dilyn RAE 2008.

Wrth anelu at lwyddiant ymchwil, byddwn hefyd yn gwella safonau ac adnoddau addysgu ar draws y Brifysgol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ragoriaeth mewn addysgu ac i roi i fyfyrwyr yr adnoddau a'r gefnogaeth addysgu a dysgu gorau posibl. Credwn y sicrheir hynny trwy anelu at ragoriaeth academaidd. I gael rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu mae angen datblygu portffolio o raglenni gradd priodol a llawn her ar draws y sefydliad a hyrwyddo arloesi mewn addysgu a dysgu, gan ddefnyddio technolegau e-ddysgu.

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn y profiad y mae'n ei gynnig i'w myfyrwyr. Rhoddir gwasanaethau o safon uchel i fyfyrwyr trwy bartneriaethau strategol rhwng gwasanaethau academaidd ac ategol ac Undeb y Myfyrwyr. Bydd y Brifysgol yn cryfhau'r profiad a gaiff myfyrwyr ynddi a chynnal ein cyfraddau rhagorol ar ddal gafael ar fyfyrwyr trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a gaiff eu cloriannu'n gyson i weld a ydynt yn cyflawni anghenion myfyrwyr.

Yn dilyn adolygiad trwyadl gan aseswyr y QAA, llwyddodd Bangor i gael Pwerau Dyfarnu Graddau a 'Teitl Prifysgol'. Bydd yr eglurder statws ac annibyniaeth hwn yn galluogi'r Brifysgol i lunio ei dyfodol yn fwy effeithiol. Daethpwyd i gytundeb clir gan Gyngor y Brifysgol o blaid i'r Brifysgol gael yr hyder i ddangos ei hannibyniaeth a dyfarnu ei graddau ei hun. Er mwyn bwrw ymlaen i sicrhau dyfodol newydd, cadarnhaol a hyderus mae'r Brifysgol wedi gweithredu i gryfhau brand a hunaniaeth Bangor er mwyn atgyfnerthu ein safle fel prifysgol o'r safon ryngwladol uchaf lle mae ymchwil yn flaenoriaeth.

Mae'r Brifysgol wedi adeiladu ar lwyddiant y Bartneriaeth Ymchwil a Menter gydag Aberystwyth a sefydlwyd Bwrdd Cyd-Strategaeth, a gadeirir gan Is-Gangellorion y ddwy Brifysgol. Cafwyd amryw o ddatblygiadau newydd, yn cynnwys y Gynghrair Biowyddoniaeth ac Amgylchedd, Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Addysg Athrawon a datblygu cydweithredu ym maes darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

Fel Prifysgol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, ein blaenoriaeth yw canolbwyntio ar weithgaredd trydedd cenhadaeth priodol a Phrifysgol Bangor fydd prif arweinydd yr economi wybodaeth yn y rhanbarth. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar fasnacheiddio a chael dylanwad ar sail ein hymchwil, gan barhau â'n cyfraniad sylweddol i'r gymdeithas ac i'r rhanbarth. Byddwn yn ymdrechu i gynnal ein safle fel un o brif ddarparwyr

partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth ym Mhrydain ac i adeiladu ar ein partneriaethau llwyddiannus, gan feithrin cyfleoedd newydd yr un pryd.

Ein nod yw sicrhau a chryfhau ein safle fel y prif sefydliad yng Nghymru mewn darparu addysg uwch cyfrwng Cymraeg, o ran maint ac ehangder cyrsiau ac o ran arbenigedd, wedi ei seilio ar ymchwil ac ymarfer. Yn 2006/07 (data diweddaraf sydd ar gael) cynyddodd nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i 2830 a gwelwyd cynnydd o 20% yn y baich addysgu cyfrwng Cymraeg. Yn 2007, daeth y Brifysgol yn gartref i Ganolfan Gogledd Cymru ar gyfer Cymraeg i Oedolion – cyfle pellach i ehangu dylanwad dwyieithrwydd ar draws y rhanbarth cyfan.

Mae staff y Brifysgol yn allweddol i gyflawni strategaeth ac amcanion y sefydliad. Mae ei strategaeth Adnoddau Dynol felly'n anelu at sicrhau rhagoriaeth drwy recriwtio staff rhagorol, eu datblygu, dal gafael arnynt a'u gwobrwyo. Ar 1 Mehefin 2008 gweithredwyd cam cyntaf cyflwyno fframweithiau tâl a gwobrwyo wedi'u moderneiddio (y 'Cytundeb Fframwaith') ac mae trafodaethau pellach yn parhau ynglŷn â materion eraill. Gyda'r cefndir hwn mewn cof byddwn yn ystyried mecanweithiau i hyrwyddo gwerthoedd y Brifysgol, yr amgylchedd gwaith o ansawdd uchel a'r fframwaith moesegol ar gyfer gweithredu.

Mae'r Brifysgol yn bwriadu parhau i ddiwygio rheolaeth a threfn lywodraethu, gyda phwyslais ar gydlynu gweithrediadau rhwng Colegau ac Adrannau Gwasanaeth Canolog, ac ar drefniadau llywodraethu symlach, ond effeithiol. Rydym yn parhau i edrych ar gostau ein gwasanaethau canolog gan ymdrechu i sicrhau gweithredu effeithiol.

Datblygu a Pherfformiad

Mae astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Campws Iechyd a Thechnoleg ar fin cael ei lansio, yn cynnwys Ysgol Meddygaeth i Ogledd Cymru. Caiff hyn gefnogaeth gadarn gan weinidogion Llywodraeth y Cynulliad. Mae llawer o'r sylfaen ar gyfer datblygiad o'r fath eisoes wedi'i gosod, yn dilyn sefydlu Coleg newydd y Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad, ymwneud allweddol Bangor â chynllun cydweithredol Ysgol Glinigol Gogledd Cymru, cysylltiadau gydag Ymddiriedolaethau'r GIG, Sefydliad Cronfa Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin, yr Ysgol Seicoleg a gafodd raddfa ymchwil 5* (ac sy'n ymgorffori Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru), a Bangor fel prif ddarparwr addysg uwch ddwyieithog yng Nghymru.

Recriwtio Myfyrwyr

Mae recriwtio myfyrwyr yn parhau'n gryf. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ceisiadau i Fangor dros y 5 mlynedd ddiwethaf ac mae recriwtio myfyrwyr wedi ei adfer gan roi 'clustog' o fyfyrwyr ffioedd yn unig, sy'n uwch na'n niferoedd a gyllidir, ac a all liniaru peth ar unrhyw ansefydlogrwydd posibl yn y farchnad yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod hwn o dwf, mae canran y myfyrwyr o Gymru wedi parhau'n gyson. Mae rhagamcanion niferoedd myfyrwyr yn gryf ac mae Bangor mewn sefyllfa dda i wynebu ansicrwydd demograffig y 10-20 mlynedd nesaf.



Mae llawer o'r twf gwirioneddol, ac a ragwelir, yn gysylltiedig â datblygiadau penodol. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n drwm mewn datblygu dwy ddisgyblaeth newydd – Y Gyfraith a Diwydiannau Creadigol. Mae'r ddwy ysgol hyn yn rhagweld twf cyson dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae angen cynnal y twf hwn i sicrhau cynaladwyedd ariannol y disgyblaethau hyn a datblygiad rhagoriaeth gadarn mewn ymchwil.



Mae gan y Brifysgol gynlluniau uchelgeisiol o hyd ar gyfer twf yn niferoedd myfyrwyr tramor. Yn ddiweddar mae'r Brifysgol wedi gweithredu strategaeth newydd ar gyfer recriwtio tramor, yn cynnwys adolygiad fesul gwlad o'r cyfleoedd ar gyfer recriwtio. I gyd-fynd â hyn ceir cynllun buddsoddi sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd, ac

mae'r Brifysgol wedi gosod targedau uchelgeisiol, ond realistig, ar gyfer recriwtio yn y dyfodol. Mae hyn i sicrhau ei llwyddiant ariannol ei hun ond hefyd i gyflawni'r targedau Ymgeisio'n Uwch a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

Ymchwil

Mae Bangor yn awr yn brifysgol sy'n rhoi blaenoriaeth i ymchwil – ym mhob maes allweddol mae ein nod o ragoriaeth ymchwil yn ganolog i wneud penderfyniadau. Mae ailstrwythuro wedi cynyddu cyfran y staff y mae eu hymchwil o bwys rhyngwladol. Cawsom yr incwm ymchwil uchaf erioed yn 2007/08. Cawsom arian sylweddol ar gyfer Canolfan ESRC ar gyfer Dwyieithrwydd ac ar gyfer nifer o brojectau Ailgyflunio a Chydweithredu. Mae amryw o ddadansoddiadau diweddar perfformiad ymchwil ym Mhrydain yn dangos mai gan Fangor y mae cyfradd llwyddiant uchaf y cyngor ymchwil yng Nghymru, mae yn safle 27 ym Mhrydain ar sail incwm cyngor ymchwil i staff cyfwerth amser-llawn ac mae yn ail adran TRAC prifysgolion, gan ein bod yn cael dros 22% o'n hincwm o ymchwil.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Bangor wedi gwneud bron 100 o benodiadau academaidd newydd a dylai'r staff hynny gyfrannu at gryfhau ein hincwm a'n cynnyrch ymchwil dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Felly, rydym mewn sefyllfa gadarn i barhau i gynhyrchu manteision ariannol, ychwanegu at ein bri yn y maes a chael dyfodol cryf. Bydd byd cyllido ymchwil yn wahanol iawn ar ôl RAE 2008 a bydd cyllid wedi ei seilio ar fetrigau nad ydynt wedi eu pennu hyd yma. Tra gall hyn gynnwys bibliometrigau, mae bron yn sicr y bydd y pwyslais cryfaf ar incwm ymchwil a gafwyd yn allanol, yn arbennig o gynghorau ymchwil. Mae angen i ni baratoi ar gyfer y drefn gyllido hon trwy gymryd pob cam a allwn i gynhyrchu mwy o incwm. Mae'r Brifysgol yn cynyddu trylwyredd ei chynllun mentora er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu mentora gan staff gyda phrofiad perthnasol wrth iddynt ymgeisio am grant ymchwil.



Datblygiadau Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn mae'r Brifysgol wedi symud ymlaen gyda nifer o ddatblygiadau cyfalaf o bwys. Y mwyaf o'r rhain yw ailddatblygu ei llety preswyl i fyfyrwyr lle cwblhawyd cytundeb Partneriaeth Gyhoeddus Breifat gyda Grŵp Gwalia i adeiladu a chynnal a chadw 1,134 o ystafelloedd, ynghyd â llety ategol. Mae Cam 1 y datblygiad wedi ei orffen erbyn hyn a chafodd 700 ystafell eu trosglwyddo i'r Brifysgol ar amser yn Awst 2008. Cyfanswm cost gyfalaf y datblygiad hwn yw £35 miliwn. Y project cyfalaf arall o bwys a gyflawnwyd gan y Brifysgol yw adeilad newydd Canolfan yr Amgylchedd Cymru. Adeiladwyd hwn mewn partneriaeth â Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol ac fe'i hagorwyd gan y Prif Weinidog yn Chwefror 2008. Cyfanswm cost y project hwn oedd £9 miliwn a chafodd ei ystyried yn 'rhagorol' gan BREEAM, un o'r adeiladau cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i gael yr anrhydedd hwnnw.

Yn 2006 mabwysiadodd y Brifysgol Strategaeth Ystadau newydd, a oedd yn cydnabod yr angen am fuddsoddi sylweddol yn ei hystad. Mae amcangyfrifon presennol yn awgrymu bod angen tua £75 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf. Y datblygiad pwysig cyntaf yw Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi newydd, a fydd yn dod yn lle Theatr Gwynedd ac adeilad Undeb y Myfyrwyr ar Ffordd Deiniol. Bydd hwn yn adeilad eiconig a fydd yn gwneud cyfraniad o bwys i amgylchedd pensaernïol y ddinas. Bydd y datblygiad cyffrous hwn yn hybu arloesi a bydd yn fan lle bydd y celfyddydau a'r gwyddorau'n cyfarfod er budd y Brifysgol a'r gymuned. Mae gwaith ar y gweill i ddod â'r datblygiad i'r cam dylunio ac i sicrhau pecyn cyllido a fydd yn galluogi i'r datblygiad pwysig hwn symud ymlaen.

Mae'r Brifysgol yn parhau i wneud cynnydd sylweddol gydag agenda'r amgylchedd a chynaladwyedd. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn ei safle yn y Tabl Cynghrair Werdd "Pobl a Phlaned", lle rhoddwyd y Brifysgol yn 40fed ymysg sefydliadau AU Prydain, a'i nod yw gwella ymhellach dros amser. Bu buddsoddi sylweddol hefyd mewn targedu ynni ac erbyn hyn cwblhawyd gwaith ar osod is-fesuryddion yn holl brif adeiladau'r Brifysgol er mwyn medru monitro'r ynni a ddefnyddir.

Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod yna risgiau ac ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig ag agweddau ar ei gweithrediadau. Mae'n anelu at adnabod, rheoli a lliniaru'r risgiau hynny lle bynnag y bo modd a hyrwyddo rheoli risg drwy'r Brifysgol gyfan. Caiff y gofrestr risg sefydliadol ei hadolygu'n ffurfiol gan y Grŵp Tasg Rheoli Risg a'r

Adolygiad Gweithredu ac Ariannol

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

Pwyllgor Gweithredu yn flynyddol ac mae hyn yn dylanwadu ar y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae gan y Pwyllgor Gweithredu hefyd is-set o risgiau allweddol y mae'n eu hadolygu'n chwarterol.

Ymysg risgiau allweddol y Brifysgol mae:

- Effeithiau posibl y dirywiad economaidd byd-eang a'r cynnwrf yn y marchnadoedd ariannol.
- Recriwtio myfyrwyr a dal gafael arnynt, yn arbennig o ran y newidiadau demograffig o 2010 ymlaen gyda myfyrwyr cartref, a gofynion fisa newydd ar gyfer myfyrwyr tramor.
- Recriwtio staff a dal gafael arnynt, yn cynnwys cost darpariaeth pensiwn yn y dyfodol.
- Gallu'r Brifysgol i sicrhau cyllid digonol i gyflawni ei dyheadau o ran datblygiadau cyfalaf.

Sefyllfa Ariannol

Crynhoir canlyniadau'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2008 fel a ganlyn:

	2007/08 £000	2006/07 £000
Incwm	107151	99190
Gweddill Gweithredu	4217	2053
Gweddill/(Diffyg) am y flwyddyn a gadwyd yn y Cronfeydd wrth Gefn	2975	(4611)
(Diffyg)/Gweddill Cost Hanesyddol	4009	(2302)

Am yr ail flwyddyn yn olynol cafwyd y gweddill uchaf eto yn y Cyfrif Incwm a Gwariant (ar ôl dibrisiad asedion sefydlog diriaethol ar brisiad), ac ar £4,217k (2006/07 £2,053k) mae'n 3.9% (2006/07 2.1%) o drosiant.

Daw'r gweddill o £2,975k yn y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol (diffyg o £4,611k 2006/07) yn dilyn colled o £976k (2006/07 £6,841k) ar gael gwared ar asedion, yn ymwneud yn bennaf â'r amhariad ar werth asedion yn gysylltiedig â cham olaf dymchwel rhai adeiladau ar Safle Ffriddoedd i wneud lle ar gyfer cwblhau'r cynllun Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat i adnewyddu rhan sylweddol o'r ystad breswyl.

Yn ystod y flwyddyn tyfodd incwm 8%, gyda'r cynnydd mwyaf i'w weld dan Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysg a Grantiau a Chontractau Ymchwil.

Cynyddodd incwm o Ffioedd Hyfforddi a Chontractau Addysg £5,181k (22.3%). Deilliodd hyn o barhad twf cadarn mewn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a'r drefn ffioedd newydd amrywiol ar gyfer israddedigion o Brydain/UE a ddaeth i rym am y tro cyntaf yng Nghymru. Gwnaed iawn am yr oedi mewn cyflwyno ffioedd amrywiol yng Nghymru gan gyllid o £3,359k yn 2006/07 o'r Ffrwd Incwm Atodol, a'r taliad unwaith yn unig hwn o gyllid Ffrwd Incwm Atodol sy'n achosi gostyngiad yn Grantiau'r Corff Cyllido yn y flwyddyn gyfredol. Yn erbyn y cynnydd hwn mewn ffioedd llawn-amser gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn ffioedd rhan-amser, yn dilyn penderfyniad strategol y Brifysgol i gael gwared ar ei fudd ar y cyd yn y fenter Business and Management Education Ltd i Brifysgol Manceinion yn Hydref 2007.

Fel y rhagwelwyd o lefel uchaf erioed y grantiau a enillwyd yn 2006/07, yn ystod y flwyddyn dan sylw cyrhaeddodd yr incwm a gafwyd o Grantiau a Chontractau Ymchwil, a gyllidir yn allanol, y lefel uchaf hyd yma o £15,079k, cynnydd o £2,640k (22.1%) ar y llynedd. Mae nifer gynyddol o grantiau wedi eu prisio ar Gostiad Economaidd Llawn yn dod yn weithredol yn awr ac yn rhoi gorsymiau iach tuag at gynaladwyedd ariannol.

Cynyddodd cyfanswm gwariant 6% yn ystod y flwyddyn a'i gynnwys o fewn y twf mewn incwm. Mae costau staff, a fynegir fel canran o drosiant, yn ddangosydd perfformiad allweddol arall i sicrhau cynaladwyedd ariannol. Heb ystyried effaith addasiadau pensiwn FRS 17, mae costau staff yn ystod y flwyddyn yn dangos gostyngiad bychan pellach i 57.22% fel canran o gyfanswm incwm, gan barhau'r duedd o leihau costau yn y maes hwn yn llwyddiannus.



Adolygiad Gweithredu ac Ariannol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

Cynyddodd gwariant gweithredu arall 9.8% ond, heb gynnwys effaith gynyddol bron £1m mewn bwrsariaethau a dalwyd dan drefn newydd ffioedd dysgu amrywiol, mae'r cynnydd hwn yn gostwng i 6.9%.

Mae'r Brifysgol yn benderfynol o sicrhau bod lefel perfformiad yn y dyfodol yn parhau i adeiladu ar y sefydlogrwydd a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Tra bod y canlyniad ar gyfer y flwyddyn dan sylw gryn dipyn ar y blaen i'r gyllideb, mae'r rhagamcanion ariannol a gyflwynwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cynllunio ar gyfer lefel o weddill i sicrhau cynaladwyedd ariannol trwy gael gweddill cyson o tua 3% o drosiant o 2010/11 ymlaen. Cred y Brifysgol y bydd hyn yn creu'r cyllid angenrheidiol i fuddsoddi yn y projectau sylweddol sy'n angenrheidiol i gyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil a chryfhau ymhellach sylfaen academaidd y Brifysgol.

Polisïau ac Amcanion y Trysorlys

Caiff perfformiad buddsoddiadau gwaddol y Brifysgol ei fonitro gan y Pwyllgor Buddsoddiadau. Mae gan y Brifysgol nifer o gronfeydd gwaddol yn deillio o gymynroddion a rhoddion eraill. Buddsoddir y cronfeydd gyda'i gilydd ac fe'u rheolir gan HSBC Investments. Gostyngodd prisiad y buddsoddiadau hyn £508k i £4,503k ar 31 Gorffennaf 2008, gan adlewyrchu'r dirywiad yn y marchnadoedd ariannol.

Rheolir adnau tymor byr y Brifysgol gan y Royal London Group sy'n buddsoddi'r cronfeydd mewn tystysgrifau adnau gyda rhestr wedi'i chymeradwyo o wrthbartïon. Yn dilyn y cyffro diweddar yn y marchnadoedd ariannol mae'r Brifysgol wedi adolygu ei threfniadau yn hyn o beth ac mae'n fodlon bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn yn cael eu rheoli'n ddigonol. Cynyddodd adnau tymor byr £5,305k i £14,814k ar 31 Gorffennaf 2008. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'n rhannol well sefyllfa arian parod ar ddiwedd y cyfnod, ond hefyd lefel is o arian mewn llaw o'i gymharu â'r llynedd oherwydd amseriad lleoliadau gyda rheolwyr y gronfa.

Llif Arian a Hylifedd

O bwynt isel yn 2001 mae'r Brifysgol wedi llwyddo i wella ei llif arian a'i sefyllfa hylifedd bob blwyddyn. Mae'r llif arian cyfunol yn dangos mewnlif arian net o £6,714k (2006/07 £2,278k) o weithgareddau gweithredol, gyda balansau arian ac adneuon tymor byr yn cynyddu £3,374k drwodd a thro ar y flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth asedion cyfredol net gau ar £9,168k, sef cynnydd o £897k ar y flwyddyn flaenorol, gyda chymhareb Asedion Hylif Dyddiau Net : Cyfanswm Gwariant yn cau 9 diwrnod yn uwch ar 61 diwrnod (2006/07 52 diwrnod). Mae'r gymhareb hon yn ddangosydd perfformiad allweddol gyda'r Brifysgol yn ceisio ei gadw rhwng 50 a 60 diwrnod wrth gynllunio'n ariannol ar gyfer y tymor hir.



Cyllid Cyfalaf

Gwariwyd £5.981m ar brojectau adeiladu a gyllidwyd trwy gyfuniad o grantiau cyfalaf a balansau ariannol. Cwblhawyd y gwaith adnewyddu sylweddol ar adeiladau rhestredig ADME, sy'n gartref i'r Ganolfan Rheolaeth newydd, ac fe'i hagorwyd yn swyddogol yn ystod y flwyddyn gan y Gwir Anrhydeddus Dafydd Wigley.

Ym Medi 2008, fel y disgrifiwyd uchod, cwblhawyd cam cyntaf cynllun Partneriaeth Gyhoeddus-Breifat y Brifysgol. Mae'r amodau'n ymwneud â'r cynllun yn golygu nad yw'r ased na'r rhwymedigaeth gyfatebol yn ymddangos ar fantolen y Brifysgol, o dan gonfensiynau cyfrifo cyfredol y DU.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddangos yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r modd y mae'r Brifysgol yn cymhwyso'r egwyddorion a bennwyd yn Adran 1 y Côd Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain. Ei ddiben yw cynorthwyo'r sawl sy'n darllen yr adroddiadau cyllidol i ddeall sut y cymhwyswyd yr egwyddorion.

Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am system reolaeth fewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Ni all unrhyw system reolaeth fewnol, fodd bynnag, ond darparu sicrwydd rhesymol, eithr nid diamod, rhag camddatganiad neu golled berthnasol. Felly, fe'i cynlluniwyd i reoli, yn hytrach na dileu, risgiau arwyddocaol sy'n bygwth amcanion busnes y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan yr archwiliwr mewnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae hyn yn rhoi sicrwydd o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Brifysgol, yn ogystal â rheolaeth risg a phrosesau llywodraethu. Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2008 mae'r adroddiad yn mynegi barn foddhaol bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi cael ei wneud i ddod i gasgliad rhesymol, yn amodol fel mewn blynyddoedd blaenorol ar weithredu argymhellion archwilio, bod gan y Brifysgol brosesau digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu i'w galluogi i gyflawni ei hamcanion.

Mae'r Cyngor o'r farn fod proses foddhaol ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol, ei bod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn a orffennodd 31 Gorffennaf 2008 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, ei bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Cyngor a'i bod yn unol â'r cyfarwyddyd rheolaeth fewnol ar gyfer cyfarwyddwyr ar y Côd Cyfunol fel y pennir ei fod yn briodol i addysg uwch.

Y mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a ddyfarnwyd yn wreiddiol yn 1885. Pennir ei hamcanion, ei phwerau a fframwaith ei threfn lywodraethu yn y Siarter a'i Statudau ategol, y cymeradwywyd y fersiwn diweddaraf ohonynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2004.

O dan y Siarter a'r Statudau mae'n rhaid i'r Brifysgol gael tri chorff ar wahân, pob un â'i swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau, fel a ganlyn:

- Y Cyngor - yw'r corff llywodraethol gweithredol sy'n gyfrifol am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol, ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Pennir y materion a neilltuir yn arbennig i'w penderfynu gan y Cyngor yn Statudau'r Brifysgol; trwy arfer a dan y Memorandwm Cyllidol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mabwysiadwyd 'Datganiad o Brif Gyfrifoldebau' gan y Cyngor yn Rhagfyr 2004.

  Mae swyddogaethau'r Llywydd, Cadeirydd y Cyngor, yr Is-Lywydd a'r Trysorydd yn rhai ar wahân i swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor. Daw y mwyafrif o aelodau'r Cyngor o'r tu allan i'r Brifysgol (disgrifir hwy fel aelodau lleyg). Ymhlith ei aelodau hefyd ceir cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol ac o blith y myfyrwyr. Nid oes yr un o'r aelodau lleyg yn derbyn unrhyw dâl, ac eithrio ad-daliad treuliau, am y gwaith a wnânt i'r Brifysgol. Mae'r holl aelodau a benodir i'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o 4 blynedd ond gallant gael eu hailbenodi am gyfnod o 8 mlynedd fan bellaf.

- Y Llys - corff mawr, ffurfiol at ei gilydd yw hwn (sydd yn bur debyg i gyfarfod cyfranddalwyr cwmni cyhoeddus mawr). Mae'n gyfrwng lle gall y buddiannau ehangach a wasanaethir gan y Brifysgol gael eu cysylltu â'r sefydliad, ac mae'n fforwm cyhoeddus lle gall aelodau'r Llys godi unrhyw faterion yn ymwneud â'r Brifysgol. Fel rheol mae'r Llys yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i dderbyn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Brifysgol. Yn ogystal mae angen i'r Llys gymeradwyo unrhyw newidiadau o bwys i gyfansoddiad y Brifysgol cyn y gellir eu cyflwyno i'r Cyfrin Gyngor.

  Daw mwyafrif aelodau'r Llys o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli cymuned Gogledd Cymru a chyrff penodol eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol, ond mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol (academaidd ac anacademaidd) ac o blith y myfyrwyr.

- Y Senedd - yw awdurdod academaidd y Brifysgol a daw ei haelodaeth yn gyfan gwbl o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ond ymdrinnir â llawer o'i waith manwl i ddechrau gan bwyllgorau sefydlog y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Adnoddau'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am fonitro pob agwedd ar reoli'n ymwneud ag adnoddau ffisegol ac ariannol y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n ystyried enwebiadau ar gyfer swyddi gwag yn aelodaeth y Cyngor o dan y Statud berthnasol. Penodir rhai aelodau lleyg gan gyrff allanol.

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n pennu cyflogau'r aelodau staff uchaf, yn cynnwys yr Is-Ganghellor.

Ffurfir y Pwyllgor Archwilio a Risg, sydd yn cyfarfod bob chwarter, o bum aelod lleyg o'r Cyngor a dau aelod allanol wedi eu cyfethol. Mae'n gyfrifol am gyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol i ystyried eu hadroddiadau a'u hargymhellion ar gyfer gwella systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymatebion a chynlluniau gweithredu y rheolaeth. Er bod yr uwch swyddogion gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fel bo angen, nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, a gall y Pwyllgor gyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol ar eu pennau eu hunain i wneud penderfyniadau annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar benodi a thalu'r archwilwyr mewnol ac allanol.

Yn unol â Pholisi Rheolaeth Risg y Brifysgol mae'r Grŵp Tasg Rheoli Risg yn derbyn adroddiadau yn nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion rheolaeth bosibl a ddygir i'w sylw gan fecanweithiau rhybudd cynnar sydd wedi eu seilio o fewn yr unedau gweithredol ac a atgyfnerthir gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r pwyslais ar roi darlun llawn i gael mesur perthnasol o sicrwydd ac nid ar adrodd ar rai eithriadau yn unig. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gwneud asesiad blynyddol trwy ystyried dogfennau gan y Grŵp Tasg Rheoli Risg a'r archwiliad mewnol, a chymryd i ystyriaeth bethau a ddigwyddodd er diwedd y flwyddyn flaenorol. Mae'n rhoi gwybodaeth i'r Cyngor ar Reolaeth Risg.

Rheolir y Brifysgol o ddydd i ddydd gan Bwyllgor Gweithredu, sy'n cynnwys yr Is-Ganghellor, Dirprwy yr Is-Ganghellor, y Dirprwy-Is-Gangellorion, y Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cynllunio. Mae gan aelodau'r grŵp awdurdod gweithredol dros eu gwahanol bortffolios. Mae'r Pwyllgor Gweithredu'n cyfarfod yn wythnosol ac fe'i cynorthwyir yn ei waith gan Grwpiau Tasg, a sefydlir ganddo o bryd i'w gilydd i ystyried materion penodol. Mae'n atebol i'r Cyngor.

Cyfarfu'r Bwrdd Penaethiaid Colegau, sy'n cynnwys Penaethiaid y Colegau, a'r Bwrdd Penaethiaid Academaidd, sy'n cynnwys Penaethiaid yr Ysgolion Academaidd, ag aelodau'r Pwyllgor Gweithredu yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd y grwpiau hyn o fudd-ddeiliaid allweddol o fewn y Brifysgol fel fforwm ymgynghorol i ystyried materion strategol a pholisi pwysig.

Prif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol yw'r Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb cyffredinol i'r Cyngor dros gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn dda'r Brifysgol. O dan delerau'r Memorandwm Cyllidol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-Ganghellor yw swyddog penodedig y Brifysgol ac yn y swyddogaeth honno gellir galw arno i ymddangos o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin.

Mae'r Brifysgol wedi cymryd i ystyriaeth y Cod Ymarfer ar drefn lywodraethu a ddisgrifiwyd yn y Canllaw i Aelodau Cyrff Llywodraethu Addysg Uwch yn y DU, ac mae o'r farn ei bod yn cydymffurfio â'r Cod hwn.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

Yn unol â'r Siarter Frenhinol, y mae Cyngor Prifysgol Bangor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli busnes Prifysgol Bangor a gofynnir iddo gyflwyno adroddiadau archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Y mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sydd yn datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol Prifysgol Bangor ac yn ei alluogi i sicrhau fod yr adroddiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r Siarter Frenhinol, y Datganiad Ymarfer Cyfrifyddu Cymeradwy ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Hefyd, o fewn telerau ac amodau Memorandwm Cyllidol, a gytunwyd rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Prifysgol Bangor, gofynnir i'r Cyngor drwy ei ddeiliad swydd penodedig, baratoi adroddiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg ar gyflwr materion Prifysgol Bangor ac ar y gweddill neu'r diffyg a'r llif-arian am y flwyddyn honno.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am gynnal ac am gywirdeb adroddiadau ariannol a gyhoeddir ar we-fan y Brifysgol. Dylid nodi y gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu adroddiadau ariannol wahaniaethu oddi wrth ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Wrth beri paratoi'r adroddiadau ariannol y mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau:

- y detholir polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- y llunnir barn ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth;
- fod safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhryw wyriadau o bwys a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiadau ariannol;
- fod cyfriflenni ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol tybio y bydd Prifysgol Bangor yn parhau i weithredu. Y mae'r Cyngor yn fodlon fod gan Brifysgol Bangor adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld: oherwydd hyn parheir i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r adroddiadau ariannol.

Y mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau y defnyddir y cyllid a geir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn unig ar gyfer y dibenion y rhoddwyd ef ac yn unol â'r Memorandwm Cyllidol gyda'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau eraill y gallai'r Cyngor Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau y ceir rheolaeth gyllidol briodol i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- ddiogelu asedion Prifysgol Bangor ac i rwystro a darganfod twyll;
- sicrhau rheolaeth gynnil, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant Prifysgol Bangor.

Y mae elfennau allweddol system reolaeth gyllidol fewnol y Brifysgol, a gynlluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau eglur o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd a gweinyddol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio gynhwysfawr tymor-canolig a byr, wedi ei hategu â chyllidebau incwm, gwariant a chyfalaf blynyddol manwl
- adolygiadau rheolaidd o berfformiad academaidd ac adolygiadau misol o ganlyniadau cyllidol gan gynnwys adrodd ar amrywedd a'r manylion diweddaraf am ganlyniadau a ddaroganwyd;
- gofynion a ddiffiniwyd ac a ffurfiolwyd yn eglur ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, gyda'r penderfyniadau buddsoddi sy'n cynnwys gwariant cyfalaf neu refeniw yn rhwym i'w gwerthuso'n ffurfiol a manwl a'u hadolygu yn unol â lefelau cymeradwyo a bennir gan y Cyngor;
- Rheoliadau Cyllidol cynhwysfawr, yn nodi manylion am reolaethau a threfniadaethau cyllidol, wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Adnoddau;
- corff Archwilio Mewnol proffesiynol â'i raglen flynyddol wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

Y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ar ran y Cyngor, wedi adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Brifysgol. Fodd bynnag, ni all unrhyw system rheolaeth ariannol fewnol roi ond sicrwydd rhesymol, eithr nid diamod, rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i Gyngor Prifysgol Bangor

Rydym wedi archwilio adroddiadau cyllidol Cyfunol a Phrifysgol (yr 'adroddiadau cyllidol') Prifysgol Bangor am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol, y Mantolenni Cyfunol a Phrifysgol, y Fantolen Llif Arian Gyfunol, y Fantolen Cyfanswm Enillion a Diffygion Cydnabyddedig a'r Nodiadau. Paratowyd yr adroddiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol (fel y'i haddaswyd gan adbrisio rhai asedion sefydlog) ac yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddo.

Gwneir yr adroddiad hwn yn unig i'r Cyngor, yn unol â Siarter a Statudau'r Brifysgol. Gwnaed ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i'r Cyngor y materion hynny y mae angen i ni eu datgan mewn adroddiad archwiliwr ac nid i unrhyw ddiben arall. Hyd yr eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r Cyngor, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn y daethom iddi.

Cyfrifoldebau Priodol Cyngor y Brifysgol a'r Archwilwyr

Mae cyfrifoldeb Cyngor y Brifysgol dros baratoi'r Arolwg Gweithredu ac Ariannol a'r datganiadau cyllidol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, yn cael ei ddisgrifio yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor ar dudalennau 9 a 10.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r adroddiadau cyllidol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Rydym yn adrodd i chwi ein barn a yw'r adroddiadau cyllidol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch. Rydym hefyd yn adrodd i chwi a yw'r incwm, ym mhob agwedd hanfodol, gan gyrff cyllido, o grantiau ac incwm ar gyfer dibenion penodol, ac o gronfeydd cyfyngedig eraill a weinyddir gan y Brifysgol, wedi ei ddefnyddio'n briodol yn unig i'r dibenion y derbyniwyd ef ar eu cyfer, ac a yw'r incwm wedi ei ddefnyddio yn unol â'r Statudau a, lle bo'n briodol, â'r Memorandwm Cyllidol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rydym hefyd yn adrodd i chwi, os, yn ein barn ni, nad yw'r Arolwg Gweithredu ac Ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau cyllidol.

Yn ogystal, rydym yn adrodd i chwi os nad yw'r Brifysgol, yn ein barn ni, wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, ac os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Rydym wedi darllen yr Arolwg Gweithredu ac Ariannol a'r Datganiad ar Lywodraeth Gorfforaethol ac ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau hanfodol â'r adroddiadau cyllidol.

Sail ein Barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r Côd Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datguddion yn yr adroddiadau cyllidol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wneir gan Gyngor y Brifysgol wrth baratoi'r adroddiadau cyllidol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp a'r Brifysgol, ac a gymhwysir hwy'n gyson a'u datguddio'n ddigonol.

Fe wnaethom gynllunio a chynnal ein harchwiliaid fel y medrem gael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriem eu bod yn angenrheidiol er mwyn darparu inni dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod yr adroddiadau cyllidol yn rhydd o gamddatganiad hanfodol, boed hynny wedi ei achosi gan dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn fe wnaethom hefyd arfarnu digonoldeb cyffredinol cyflwyniad y wybodaeth yn yr adroddiadau cyllidol.

Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r adroddiadau cyllidol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â'r Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifyddu yn y DU, o amgylchiadau'r Brifysgol a'r Grŵp ar 31 Gorffennaf 2008, ac o weddill incwm y

Grŵp dros wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hwnnw;

- mae'r adroddiadau cyllidol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifyddu mewn Addysg Bellach ac Uwch;

- ym mhob agwedd hanfodol, mae incwm o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, grantiau ac incwm i ddibenion penodol, ac o gronfeydd cyfyngedig eraill a weinyddwyd gan y Brifysgol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008, wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y cawsant eu derbyn i'w cyflawni; ac

- ym mhob agwedd hanfodol, mae'r incwm yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008 wedi ei ddefnyddio yn unol â Statudau'r Brifysgol a, lle bo'n briodol, yn unol â'r Memorandwm Cyllidol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

KPMG LLP
Cyfrifyddion Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Manceinion
12 Rhagfyr 2008

Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

	Nodyn	Cyfunol 2007/08 £000	Cyfunol 2006/07 £000
INCWM			
Grantiau Cyrff Cyllido	2	41171	42969
Ffioedd Academaidd a Chontractau Addysg	3	28465	23284
Grantiau a Chontractau Ymchwil	4	15079	12439
Incwm Arall	5	21427	22631
Incwm Gwaddol a Buddsoddiadau	6	2197	1345
Cyfanswm Cyfunol a chyfran Incwm o'r Mentrau ar y Cyd		108339	102668
Namyn Cyfran Incwm o'r Mentrau ar y Cyd		(1188)	(3478)
Cyfanswm Incwm		107151	99190
GWARIANT			
Costau Staff	8	60702	58152
Treuliau Gweithredol Eraill	9	36967	33670
Dibrisiad	13	4388	4417
Llog Taladwy a Chostau Eraill	10	877	898
Cyfanswm Gwariant	11	102934	97137
Gweddill ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion Diriaethol Sefydlog ar Brisiad		4217	2053
Amhariad ar Asedion	13	(976)	(6841)
Gwerthu a Therfynu Gweithrediadau	14B	(236)	(225)
Gweddill/(Diffyg) ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion Diriaethol Sefydlog ar Brisiad a Gwaredu Asedion ond cyn cyfran (Diffyg)/ Gweddill Mentrau ar y Cyd a Chyfranogion		3005	(5013)
Cyfran (Diffyg)/Gweddill Mentrau ar y Cyd a Chyfranogion	14B	(74)	316
Gweddill/(Diffyg) ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion Diriaethol Sefydlog ar Brisiad a Gwaredu Asedion a chyfran (Diffyg)/ Gweddill Mentrau ar y Cyd a Chyfranogion		2931	(4697)
Trosglwyddiad i Incwm Cronedig o fewn Gwaddolion Penodol		44	86
Gweddill/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn wedi ei gadw o fewn Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol	23	2975	(4611)

Mae incwm a gwariant cyfunol y Brifysgol a'i his-gwmniau yn ymwneud yn llwyr â gweithrediadau sy'n parhau.

Adroddiad ar Ddiffygion a Gweddillion Costau Hanesyddol Cyfunol

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

	Nodyn	Cyfunol 2007/08 £000	Cyfunol 2006/07 £000
Gweddill/(Diffyg) ar Weithrediadau Parhaus		2931	(4697)
Y gwahaniaeth rhwng Dibrisiad ar Sail Cost Hanesyddol a'r Codiad Dibrisiad Gwirioneddol am y Flwyddyn wedi'i Gyfrifo ar y Swm Adbrisiedig	22	599	612
Realeiddiad Enillion Adbrisiad Eiddo yn y Blynyddoedd Blaenorol	22	479	1783
Gweddill/(Diffyg) Cost Hanesyddol		4009	(2302)

Adroddiad o Gyfanswm Enillion a Diffygion Cydnabyddedig

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

	Nodyn	Cyfunol 2007/08 £000	Cyfunol 2006/07 £000 Ailddatgan*
Gweddill/(Diffyg) ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion Diriaethol Sefydlog ar Brisiad a Gwaredu Asedion a chyfran o (Diffyg)/Gweddill Mentrau ar y Cyd a Chyfranogion		2931	(4697)
(Dibrisiad)/Adbrisiad Buddsoddiadau Asedion Gwaddol	21	(508)	359
(Colled)/ Ennill Actiwaraidd ar Gynllun Pensiwn	31	(557)	7192
(Colled)/Ennill nas Gwireddwyd ar Fuddsoddiadau		(51)	32
CYFANSWM ENILLION CYDNABYDDEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN		1815	2886
Cysoni			
Cronfeydd wrth Gefn a Gwaddolion Agoriadol		67774	64888
Cyfanswm Enillion Cydnabyddedig ar gyfer y Flwyddyn		1815	2886
Cronfeydd wrth Gefn a Gwaddolion wrth Gloi		69589	67774

* Mae'r enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2007 wedi cael eu hailddatgan i adlewyrchu cyflwyno SORP 2007 (gweler Nodyn 34).

Mantolen
Ar 31 Gorffennaf 2008

	Nodyn	Cyfunol 2008 £000	Cyfunol 2007 £000 Ailddatgan*	Prifysgol 2008 £000	Prifysgol 2007 £000 Ailddatgan*
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Diriaethol	13	109772	106635	99028	97332
Buddsoddiadau	14A	2238	2289	3361	3546
Budd mewn Mentrau ar y Cyd a Chyfranogion	14B	(281)	29		
- cyfran o'r asedion crynswth		*2107*	*4131*		
- cyfran o'r rhwymedigaethau crynswth		*(2388)*	*(4102)*		
		111729	108953	102389	100878
BUDDSODDIADAU ASED GWADDOL	15	4503	5055	4503	5055
ASEDION CYFREDOL					
Stociau		169	207	88	96
Dyledwyr	16	13240	14374	13142	11535
Adneuon tymor byr		14814	9509	14814	9509
Arian yn y Banc ac mewn Llaw		2326	4954	1137	4022
		30549	29044	29181	25162
CREDYDWYR: SYMIAU YN DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN	17	(21381)	(20755)	(20674)	(18642)
ASEDION CYFREDOL NET		9168	8289	8507	6520
CYFANSWM ASEDION NAMYN RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		125400	122297	115399	112453
CREDYDWYR: SYMIAU YN DDYLEDUS AR ÔL MWY NAG UN FLWYDDYN	18	(15417)	(15714)	(12546)	(12923)
DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A CHODIADAU	19		(447)		(447)
ASEDION NET AC EITHRIO RHWYMEDIGAETH PENSIWN		109983	106136	102853	99083
RHWYMEDIGAETH PENSIWN	31	(1992)	(2369)	(1992)	(2369)
ASEDION NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH PENSIWN		107991	103767	100861	96714

Mantolen
Ar 31 Gorffennaf 2008

	Nodyn	Cyfunol 2008 £000	Cyfunol 2007 £000 Ailddatgan*	Prifysgol 2008 £000	Prifysgol 2007 £000 Ailddatgan*
GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG	20	38402	35993	29783	28309
GWADDOLION					
Gwariadwy	21	2064	2360	2064	2360
Parhaol	21	2439	2695	2439	2695
		4503	5055	4503	5055
CRONFEYDD WRTH GEFN					
Cronfa wrth Gefn Gyffredinol ac Eithrio Rhwymedigaeth Pensiwn	23	37036	33917	38525	34548
Cronfa wrth Gefn Pensiynau	31	(1992)	(2369)	(1992)	(2369)
Cronfa wrth Gefn Gyffredinol yn Cynnwys Rhwymedigaeth Pensiwn		35044	31548	36533	32179
Cronfa Adbrisiad	22	30042	31171	30042	31171
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN		65086	62719	66575	63350
CYFANSWM CRONFEYDD		107991	103767	100861	96714

* Mae'r fantolen fel ag ar 31 Gorffennaf 2007 wedi cael ei hailddatgan i adlewyrchu cyflwyno SORP 2007 (gweler Nodyn 34).

Cymeradwywyd yr adroddiadau cyllidol ar dudalennau 13 i 46 gan y Cyngor ar 12 Rhagfyr 2008 ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

R M JONES, Is-Ganghellor

H ELWYN JONES, Trysorydd

D W HUGHES, Cyfarwyddwr Cyllid

Prifysgol Bangor

Adroddiad Llif-Arian Cyfunol

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

	Nodyn	2007/08 £000	2006/07 £000
MEWN-LIF ARIAN NET O'R GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL	25	6714	2278
Adenillion ar Fuddsoddiadau a Chynnal Cyllid	28	492	13
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol	29	(3600)	(4727)
Mewn-lif/(All-lif) Arian cyn Rheolaeth Adnoddau Rhydd a Chyllido		3606	(2436)
Rheolaeth Adnoddau Rhydd	30	(5523)	3189
Cyllido	26	(14)	2530
(GOSTYNGIAD)/CYNNYDD MEWN ARIAN YN Y FLWYDDYN		(1931)	3283
CYSONI LLIF-ARIAN NET Â'R SYMUD YN Y (DYLEDION)/CRONFEYDD NET			
(GOSTYNGIAD)/ CYNNYDD MEWN ARIAN YN Y FLWYDDYN		(1931)	3283
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Adnoddau Rhydd	30	5523	(3189)
Benthyciadau Newydd a Phrydlesi Ariannol	26	(744)	(3250)
Ad-daliadau Cyfalaf	26	758	720
Gostyngiad/(Cynnydd) yn y Ddyled Net yn y Flwyddyn		3606	(2436)
(Dyled)/ Cronfeydd Net ar 1 Awst	27	(2001)	435
CRONFEYDD/(DYLED) NET AR 31 GORFFENNAF	27	1605	(2001)

Nodiadau'r Cyfrifon
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

1. PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Sail Paratoi

Paratowyd yr adroddiadau cyllidol hyn yn unol â'r Datganiad Ymarfer Cymeradwy (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (2007) ac yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu cymwys. Maent yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Addasiadau Blwyddyn Flaenorol

Arweiniodd cyflwyno SORP 2007, a fabwysiadwyd am y tro cyntaf yn 2007/08, at ymdrin yn wahanol â rhai balansau, a gyfrifwyd fel cronfeydd gwaddol o'r blaen. Mae cymariaethau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan yn unol â hynny (gweler Nodyn 34).

Sail Cyfrifyddu

Paratoir yr adroddiadau cyllidol yn ôl y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd trwy adbrisio buddsoddiadau asedion gwaddol ac adbrisio rhai tiroedd ac adeiladau.

Sail Cyfuno

Y mae'r adroddiadau cyllidol cyfunol yn cynnwys cyfriflenni cyllidol y Brifysgol a phob is-gwmni a menter ar y cyd am y flwyddyn ariannol hyd 31 Gorffennaf 2008. Dilëir yn llwyr werthiannau ac elw rhyng-grŵp wrth eu cyfuno. Mae'r daliadau yn y Business & Management Education Limited a VT Ocean Sciences Limited yn un o berchenogaeth a rheolaeth gyfartal, ac o'r herwydd fe'u cyfrifir ar sail soddgyfran grynswth yn unol â FRS 9: Cyfranogion a Mentrau ar y Cyd. Yn unol â FRS 2: Cyfrifyddu ar gyfer Is-gwmnïau, nid yw gweithgareddau Undeb Myfyrwyr y Brifysgol a'r Ymddiriedolaeth Ddatblygu wedi eu cyfuno gan nad yw'r Brifysgol yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Cydnabod Incwm

Caiff incwm o ffioedd dysgu ei gydnabod yn y cyfnod y caiff ei dderbyn ac mae'n cynnwys yr holl ffioedd a godir ar fyfyrwyr neu eu noddwyr. Caiff costau unrhyw ffioedd a esgusodir gan y Brifysgol eu cynnwys fel gwariant yn Nodyn 9. Caiff bwrsariaethau ac ysgoloriaethau eu nodi'n gros fel gwariant a'u cynnwys yn yr incwm gweithredu.

Cynhwysir incwm o grantiau ymchwil a chontractau a gwasanaethau eraill a wnaethpwyd yng ngraddfa cwblhau'r contract neu'r gwasanaeth dan sylw. Mae hyn fel rheol yn cyfateb i swm y gwariant perthnasol a gafwyd yn ystod y flwyddyn ynghyd ag unrhyw gyfraniadau perthynol tuag at argostau.

Credydir yr holl incwm o adneuon tymor-byr a gwaddolion a rhoddion cyffredinol i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod yr enillir ef.

Caiff incwm o waddolion a buddsoddi asedion sefydlog ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail derbyn. Caiff incwm o waddolion penodol nas gwerir, yn unol â chyfyngiadau'r gwaddol, eu trosglwyddo o'r cyfrif incwm a gwariant i waddolion cyfyngedig. Caiff unrhyw enillion neu golledion a geir trwy ddelio yn yr asedion cysylltiedig eu cadw o fewn y gwaddol yn y fantolen.

Cydnabyddir grantiau rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cynulliad yn y cyfnod y derbynnir hwy.

Ymdrinnir â grantiau heb fod yn rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu gyrff eraill a dderbyniwyd mewn perthynas â chaffael neu adeiladu asedion sefydlog fel grantiau cyfalaf gohiriedig ac fe'u hamorteiddir yn unol â dibrisiad dros oes yr asedion.

Trefniadau Asiantaeth

Ni chynhwysir yn incwm a gwariant y Brifysgol gronfeydd y mae'r Brifysgol yn eu derbyn a'u dosbarthu fel asiant talu ar ran corff cyllido neu gorff arall, lle mae'r sefydliad yn wynebu risg bychan iawn neu'n cael budd economaidd bychan iawn yn gysylltiedig â derbyn ac yna ddosbarthu'r cronfeydd.

Cynnal-a-chadw Tir ac Adeiladau

Daw costau cynnal-a-chadw hir-dymor a gwaith adferol cynnal rheolaidd o'r cyfrif incwm a gwariant fel maent yn codi.

Costau Pensiwn

Y ddau brif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion a Chynllun Pensiwn ac Yswiriant 1978 Prifysgol Bangor. Mae nifer fechan o staff yn parhau'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

1. PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU
(Parhad)

Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

Mae'r sefydliad yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion, sef cynllun buddion diffiniedig sy'n cael ei ariannu o'r tu allan a heb fod yn rhan o'r Ail Bensiwn Gwladol. Cedwir asedion y cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Ni all y sefydliad bennu beth yw ei chyfran o asedion cudd a rhwymedigaethau'r cynllun ar sail gyson a rhesymol ac, felly, yn unol â gofynion FRS 17: Buddion Ymddeol, mae'n ystyried y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfrannu diffiniedig. O ganlyniad, mae'r swm a roddir i'r cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun dros y cyfnod cyfrifyddu.

Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Cymru, Bangor 1978

Mae'r Brifysgol yn gweithredu Cynllun Pensiwn ac Yswiriant 1978 Prifysgol Cymru, Bangor, sef cynllun buddion diffiniedig sy'n cael ei ariannu o'r tu allan a heb fod yn rhan o'r Ail Bensiwn Gwladol. Codir y cyfraniadau i'r cynllun o'r cyfrif incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y gweithwyr yn y Brifysgol yn y fath fodd fel bo cost y pensiwn yn ganran sylweddol wastad o'r gyflogres bensiynadwy bresennol a dyfodol. Lledaenir amrywiadau o gostau rheolaidd dros y cyfnod gwaith y disgwylir iddo, ar gyfartaledd, fod yn weddill i aelodau'r Cynllun ar ôl ystyried yn briodol y tynnir arian allan yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwarïaid cymwys ar sail prisiadau bob tair blynedd gan ddefnyddio'r dull uned amcanol.

Mae'r Brifysgol eisoes wedi mabwysiadu'n llawn safon gyfrifyddu FRS 17: Buddion Ymddeol. Caiff y gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr asedion a ddelir yng nghynllun pensiwn buddion diffiniedig y Brifysgol a rhwymedigaethau'r cynllun ei gydnabod ym mantolen y Brifysgol fel rhwymedigaeth cynllun pensiwn. Mae newidiadau yn rhwymedigaeth y cynllun pensiwn buddion diffiniedig, yn deillio o ffactorau heblaw cyfraniad ariannol gan y Brifysgol, yn cael eu rhoi i'r Cyfrif Incwm a Gwariant neu i'r Adroddiad o Gyfanswm Enillion a Diffygion Cydnabyddedig yn unol â FRS 17.

Arian Tramor

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor ar y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion. Trosir asedion ariannol a rhwymedigaethau mewn arian tramor i sterling naill ai ar gyfraddau diwedd y flwyddyn neu, pan fo contractau cyfnewid tramor ymlaen perthynol, ar gyfraddau contract. Ymdrinnir â'r gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o hyn wrth bennu incwm a gwariant am y flwyddyn ariannol.

Asedion Sefydlog Dirweddol

Tir ac Adeiladau

Mae'r Brifysgol yn flaenorol wedi defnyddio darpariaethau FRS 15: Asedion Sefydlog Dirweddol i ganiatáu iddi gadw Tir ac Adeiladau ar eu symiau yn y cyfrifon ar 1 Awst 1999, yn amodol ar ddarpariaethau dibrisiant cyfredol. Cyn y dyddiad hwn roedd Tir ac Adeiladau wedi cael eu nodi yn y fantolen yn ôl eu prisiad, ac eithrio ychwanegiadau rhwng prisiadau, a oedd wedi cael eu nodi yn ôl cost.

Adroddir ar y tir a'r adeiladau a gynhwyswyd ar brisiad ar y seiliau canlynol:

- Datgenir tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yr oedd y Brifysgol yn berchen arnynt cyn 1 Ionawr 1994 ac y medrir eu prisio ar y farchnad agored ar Brisiad Marchnad Agored ar Ionawr 1994.

- Datgenir tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yr oedd y Brifysgol yn berchen arnynt cyn 1 Ionawr 1994 ond na fedrir eu prisio ar y farchnad agored ar Gost cael eiddo newydd wedi ei ddibrisio ar Ionawr 1994.

- Datgenir tir ac adeiladau a gafwyd wrth uno â'r Coleg Normal ar Gost cael eiddo newydd wedi ei ddibrisio ar Fehefin 1993.

Dibrisir adeiladau dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir yn 50 mlynedd. Ni ddibrisir tir oherwydd ystyrir fod iddo oes ddefnyddiol amhenodol.

Lle ceir adeiladau â chymorth grantiau penodol fe'u cyfalefir a'u dibrisio fel uchod. Credydir y grantiau perthynol i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased perthynol ar sail sy'n gyson â'r polisi dibrisio.

Ni chyfalefir costau ariannol y gellir yn uniongyrchol eu priodoli i godi adeiladau fel rhan o gost yr asedion hynny.

1. PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU
(Parhad)

Cynhelir arolwg o amhariad ar asedion sefydlog os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn awgrymu na ellir o bosib adfer swm cynnal yr asedion sefydlog.

Caiff adeiladau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, ac na chodir unrhyw ddibrisiant arnynt, eu cyfrifo ar gost, wedi ei seilio ar dystysgrifau'r pensaer a chostau uniongyrchol eraill a gafwyd hyd at 31 Gorffennaf.

Dibrisir gwelliannau i brydles dros gyfnod y brydles.

Cyfarpar

Y mae cyfarpar, gan gynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd, sy'n costio llai na £10,000 yr eitem unigol, neu grŵp o eitemau cysylltiedig, yn cael eu dileu ym mlwyddyn eu caffael.

Cyfalefir yr holl gyfarpar arall ar gost. Caiff cyfarpar a gyfalefir ei ddibrisio ar gost ac fe'i dibrisir dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig a amcangyfrifir yn 5 mlynedd, neu gyfnod y grant mewn perthynas ag ymchwil benodol neu brojectau eraill.

Pan geir cyfarpar drwy gyfrwng grantiau penodol fe'i cyfalefir a'i ddibrisio yn unol â'r polisi uchod. Caiff y grant cysylltiedig ei gredydu i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig a'i ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y cyfarpar dan sylw.

Asedion a Brydlesir

Mae costau'n ymwneud â phrydlesau gweithredu'n cael eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff trefniadau prydlesu sy'n trosglwyddo i'r Brifysgol i bob pwrpas holl fuddion a risgiau perchenogi ased, eu trin fel pe bai'r ased wedi cael ei phrynu'n llwyr. Cynhwysir yr asedion mewn asedion sefydlog a dangosir elfennau cyfalaf y rhwymedigaethau prydlesu fel rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid. Ymdrinnir â rhenti'r brydles fel pe baent yn cynnwys elfennau cyfalaf a llog.

Gweithredir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau rhwymedigaethau sy'n ddyledus a chodir yr elfen llog i'r cyfrif incwm a gwariant. Caiff asedion a ddelir o dan brydlesau cyllid eu dibrisio dros y cyfnod prydles byrraf neu fywyd economaidd defnyddiol asedion cyfwerth.

Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau asedion sefydlog nad ydynt wedi eu rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn cael eu cario ar gost hanesyddol namyn unrhyw ddarpariaeth am unrhyw amhariad yn eu gwerth.

Cynhwysir buddsoddiadau sy'n ffurfio rhan o asedion gwaddol yn y fantolen ar werth y farchnad.

Cynhwysir buddsoddiadau asedion cyfredol yn y fantolen ar raddfa is eu cost wreiddiol a gwerth sylweddoladwy net.

Stociau

Datgenir stociau ar raddfa is eu cost a gwerth sylweddoladwy net. Lle bo angen, gwneir darpariaeth am stociau darfodedig, araf i symud a diffygiol. Eithrir y deunyddiau ym meddiant adrannau dysgu ac ymchwil a gwasanaeth, daw'r gwariant hwn o'r cyfrif incwm a gwariant fel mae'n codi.

Statws Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen a ryddheir o fewn telerau Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993 ac fel y cyfryw y mae'n elusen o fewn telerau Adran 506(1) Deddf Trethi 1988. Felly, y mae'r Brifysgol yn medru cael ei rhyddhau o drethiant o ran incwm neu'r enillion cyfalafol a dderbynnir o fewn y categoriau a gynhwysir yn Adran 505 Deddf Trethi 1988 neu Adran 256 Deddf Trethiant Enillion Taladwy 1992 i'r graddau fod y cyfryw incwm neu enillion yn cael eu cymhwyso'n gyfan gwbl at ddibenion elusennol.

Nid yw'r Brifysgol yn cael ei rhyddhau yn yr un modd o Dreth ar Werth.

Adnoddau Rhydd

Mae adnoddau rhydd yn cynnwys symiau ar adnau tymor-byr gyda banciau cydnabyddedig a rheolwyr cronfeydd proffesiynol.

Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y Brifysgol rwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongladwy o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Mae'n debyg y bydd gofyn am drosglwyddo budd economaidd i setlo rhwymedigaeth ac y gellir amcangyfrif y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

2. GRANTIAU'R CYNGOR

	2007/08 £000	2006/07 £000
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru		
Grantiau Rheolaidd	32190	34371
Grantiau Penodol		
Darpariaeth Anabledd	76	408
Mesurau Arbed Ynni	240	
Ad-daliad ERASMUS	108	26
Datblygiad Economaidd Addysg Uwch	571	668
Ymarferwyr Cenedlaethol	295	481
Ysgol Glinigol Gogledd Cymru	129	62
MAN Gogledd Cymru	245	201
Cytundeb Fframwaith Tâl	20	105
Myfyrwyr Rhan-amser	116	
Cefnogaeth Strategol RAE	1027	345
Ymgeisio'n Uwch Ymgeisio'n Ehangach	509	485
Ailgyflunio a Chydweithredu	1548	910
Datblygiad Gallu Ymchwil		274
Is-adeiledd Ymchwil Wyddonol		317
Cronfa Strategol Hyfforddi Athrawon	150	121
Addysgu a TG	620	701
Canolfan Iaith Cymraeg i Oedolion	451	343
Datblygiad Cyfrwng Cymraeg	106	103
Cymrodoriaethau Dysgu Cyfrwng Cymraeg	224	123
Arall	359	334
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn		
Adeiladau (Nodyn 20)	362	319
Cyfarpar (Nodyn 20)	690	1166
	40036	41863
Llywodraeth Cynulliad Cymru		
Grantiau Rheolaidd	1135	1057
Pwyllgor Systemau Gwybodaeth		49
	41171	42969

3. FFIOEDD HYFFORDDIANT A CHONTRACTAU ADDYSG

	2007/08 £000	2006/07 £000
Myfyrwyr llawn-amser y DU a'r UE	13354	7012
Myfyrwyr llawn-amser Rhyngwladol	5553	4222
Ffioedd Rhan-amser	1405	3666
Grantiau Cefnogi Hyfforddiant Ymchwil	298	233
Ffioedd Cyrsiau Byr	263	335
Contractau Addysg	7592	7816
	28465	23284

4. GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL

	2007/08			2006/07		
	Incwm	Gwariant Union-gyrchol	Cyfraniad Net	Incwm	Gwariant Union-gyrchol	Cyfraniad Net
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Colegau						
Celfyddydau a Dyniaethau	1499	1057	442	545	436	109
Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith	261	213	48	356	333	23
Addysg a Dysgu Gydol Oes	345	265	80	325	310	15
Gwyddorau Naturiol	5765	4539	1226	5198	4338	860
Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad	4435	3491	944	3519	2884	635
Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol	2539	2092	447	2395	1965	430
Cyfanswm Colegau	14844	11657	3187	12338	10266	2072
Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Academaidd a Chanolog	235	121	114	101	79	22
Cyfanswm y Brifysgol a Chyfunol	15079	11778	3301	12439	10345	2094
Ffynonellau Incwm Ymchwil						
Cynghorau Ymchwil	5206			3542		
Elusennau yn y DU	1231			1159		
Llywodraeth Ganolog/Lleol y DU & Ymddiriedolaethau Iechyd/Ysbytai	4128			3246		
Diwydiant a Masnach y DU	1045			887		
Cyrff Llywodraeth yr UE	2992			3278		
Arall UE	3			54		
Arall Tramor	158			156		
Ffynonellau eraill	316			117		
	15079			12439		

Mae'r Incwm o Grantiau a Chontractau Ymchwil yn cynnwys y Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a ryddhawyd yn y flwyddyn o £471k (2006/07 £418k).

5. INCWM ARALL

	2007/08 £000	2006/07 £000
Preswylfeydd, Arlwyo a Chynadleddau	6523	6349
Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd (Nodyn 7)	9018	10035
Ymddiriedolaethau Iechyd	614	593
Rhyddhawyd o'r Grantiau Cyfalaf Gohiriedig (Nodyn 20)	266	239
Adran Hyfforddi	627	1168
Incwm Arall	4379	4247
	21427	22631

6. INCWM GWADDOL A BUDDSODDI

	2007/08 £000	2006/07 £000 Ailddatgan
Incwm o Fuddsoddiadau Parhaol Asedion Gwaddol (Nodyn 21)	123	99
Incwm o Fuddsoddiadau Gwariadwy Asedion Gwaddol (Nodyn 21)	98	90
Incwm o Fuddsoddiadau Asedion Sefydlog	20	24
Incwm o Fuddsoddiadau Tymor Byr	1010	580
Llog Arall Derbyniadwy	118	118
Cyfanswm cyn Incwm Cyllid Pensiwn	1369	911
Incwm Cyllid Pensiwn (Nodyn 31)	828	434
	2197	1345

7. GWASANAETHAU ERAILL A DDARPARWYD

	2007/08			2006/07		
	Incwm £000	Gwariant Union-gyrchol £000	Cyfraniad Net £000	Incwm £000	Gwariant Union-gyrchol £000	Cyfraniad Net £000
Colegau						
Celfyddydau a Dyniaethau	729	626	103	647	755	(108)
Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith	72	36	36	173	165	8
Addysg a Dysgu Gydol Oes	44	37	7	38	31	7
Gwyddorau Naturiol	2825	2406	419	3076	2791	285
Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad	1138	1067	71	1340	1271	69
Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol	608	527	81	568	450	118
Cyfanswm Colegau	5416	4699	717	5842	5463	379
Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Academaidd a Chanolog	520	425	95	837	717	120
Cyfanswm y Brifysgol	5936	5124	812	6679	6180	499
BCDD Ltd				318	549	(231)
CAST Ltd	1338	1274	64	1963	1881	82
IDB (UWB) Ltd	492	481	11	334	361	(27)
NWWMDC Ltd	629	1492	(863)	210	517	(307)
Cyfran o Incwm Menter ar y Cyd	623		623	531		531
Cyfanswm Cyfunol	9018	8371	647	10035	9488	547

Mae'r incwm o Wasanaethau Eraill a Ddarparwyd yn cynnwys y Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a ryddhawyd yn y flwyddyn o £441k (2006/07 £381k).

8. COSTAU STAFF

	2007/08 £000	2006/07 £000
Costau Staff		
Cyflogau a Thaliadau	50011	46672
Costau Nawdd Cymdeithasol	4073	3726
Costau Pensiwn Eraill ac eithrio addasiadau FRS17	6215	5818
Costau/(Credyd) Pensiwn FRS17 (Nodyn 31)	(106)	293
	60193	56509
Costau Ailstrwythuro	509	1643
	60702	58152

Mae costau ailstrwythuro o £509K yn 2007/08 yn ymwneud yn llwyr â chost trefniadau diswyddo a gafwyd cyn diwedd y flwyddyn.

Taliadau i'r Is-Ganghellor	216	197

Dangosir taliadau'r Is-Ganghellor ar yr un sail â rhai'r staff ar gyflog uwch. Mae'r taliadau'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y Brifysgol i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion. Telir y rhain ar yr un cyfraddau ag ar gyfer staff academaidd eraill a daethant i £26,500 (2006/07 - £23,400).

Ni thalwyd ac nid oedd yn daladwy unrhyw iawndal am golli swydd i unrhyw gyn aelodau staff ar gyflog uwch (2006/07 £Dim).

Niferoedd Staff yn ôl y Prif Gategori	Nifer	Nifer
Academaidd, Academaidd Gysylltiedig ac Ymchwil	940	907
Clercyddol	303	319
Technegol	98	103
Eraill	212	224
	1553	1553

Mynegir niferoedd y staff fel cyfwerth amser-llawn.

Dadansoddiad o Daliadau'r Cyflogeion	Nifer	Nifer
£100,001-£110,000	9	2
£110,001-£120,000		1
£120,001-£130,000	2	1
£130,001-£140,000	1	
£140,001-£150,000		1
£150,001-£160,000	1	2
£160,001-£170,000	2	
£190,001-£200,000		1
£210,001-£220,000	1	

Mae'r taliadau'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y Brifysgol at Gynllun Pensiwn y Prifysgolion.

9. TREULIAU GWEITHREDOL ERAILL

	2007/08 £000	2006/07 £000
Adrannau Academaidd	8901	8428
Gwasanaethau Academaidd	2721	2597
Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Canolog	8346	6026
Treuliau Cynnal Adeiladau	2754	2874
Cynnal a Chadw Rheolaidd yr Adeiladau	3671	2646
Gweithrediadau Preswylfeydd ac Arlwyo	2554	2732
Grantiau a Chontractau Ymchwil	4079	3703
Gwasanaethau a Ddarparwyd	3583	4237
Arall	358	427
	36967	33670

	2007/08 £000	2006/07 £000
Mae Treuliau Gweithredol Eraill yn Cynnwys:		
Grant i Undeb Myfyrwyr y Brifysgol	590	559
Taliadau'r Archwilwyr (Prifysgol £41k: 2007 £39k)	58	55
Taliadau'r Archwilwyr am Wasanaethau ac eithrio Archwilio (Prifysgol £132k: 2007 £122k)	137	127
Archwiliad Mewnol a dalwyd i Drydydd Partïon	48	61
Llogi Offer a Pheiriannau – Prydlesi Gweithredu	870	830
Llogi Asedion Eraill – Prydlesi Gweithredu	997	908

10. LLOG TALADWY

	2007/08 £000	2006/07 £000
Benthyciadau a Gorddrafftiau Banc	863	898
Prydlesi Cyllid	14	
	877	898

11. DADANSODDIAD O WARIANT YN ÔL GWEITHGARWCH

	2007/08					2006/07
	Costau Staff	Dibris-iant	Treuliau Gweith-redol Eraill	Llog Taladwy	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Adrannau Academaidd (Nodyn 12)	30993	667	8901		40561	37500
Gwasanaethau Academaidd	3850	86	2721	`	6657	6614
Gweinyddiaeth Ganolog a Gwasanaethau	5972	146	2851		8969	7847
Addysgol Cyffredinol	794		4688		5482	3725
Cyfleusterau Staff a Myfyrwyr	1064		807	48	1919	1793
Adeiladau	3315	108	6425	298	10146	8782
Gweithrediadau Preswylfeydd ac Arlwyo	2161	3	2554	528	5246	5397
Dibrisiant Adeiladau		2335			2335	2269
Grantiau a Chontractau Ymchwil (Nodyn 4)	7278	421	4079		11778	10345
Gwasanaethau a Ddarparwyd (Nodyn 7)	4166	622	3583		8371	9488
Ailstrwythuro Staff a dalwyd yn Ganolog	236				236	1154
Arall	979		358	3	1340	1930
Costau/(Credyd) Pensiwn FRS17 (Nodyn 31)	(106)				(106)	293
Cyfanswm yn ôl Cyfrif Incwm a Gwariant	60702	4388	30967	877	102934	97137

Ariannwyd y gost dibrisiant gan:

Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a Ryddhawyd (Nodyn 20)	2230
Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio a Ryddhawyd (Nodyn 22)	599
Incwm Cyffredinol	1559
	4388

Yn ychwanegol at gostau ailstrwythuro staff a dalwyd yn ganolog uchod, talwyd costau ailstrwythuro staff o £273k (2006/07 £489k) yn uniongyrchol gan adrannau.

12. ADRANNAU ACADEMAIDD

	2007/08				2006/07
	Staff Academaidd a Chysylltiedig	Staff An-acad-emaidd	Gwariant Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Colegau					
Celfyddydau a Dyniaethau	4429	386	598	5413	4996
Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith	3262	264	890	4416	3549
Addysg a Dysgu Gydol Oes	3336	500	1301	5137	4993
Gwyddorau Naturiol	5268	1425	2537	9230	8710
Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad	8658	1281	3409	13348	12300
Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol	1762	422	833	3017	2952
Cyfanswm Prifysgol a Chyfunol	26715	4278	9568	40561	37500

13. ASEDION DIRIAETHOL
Cyfunol

	Tir ac Adeiladau Rhydd-fraint	Gwell-iannau Prydles	Cyfarpar	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Prisiad/Cost				
Ar 1 Awst 2007				
Prisiad	67997			67997
Cost	49862	9158	16696	75716
Ychwanegiadau ar Gost	4902	1079	2520	8501
Gwerthiannau				
Prisiad	(1310)			(1310)
Cost	(56)		(137)	(193)
Ar 31 Gorffennaf 2008				
Prisiad	66687			66687
Cost	54708	10237	19079	84024
Dibrisiant				
Ar 1 Awst 2007	23803	545	12730	37078
Codiad am y Flwyddyn	2257	271	1860	4388
Dilewyd ar Werthiannau	(390)		(137)	(527)
Ar 31 Gorffennaf 2008	25670	816	14453	40939
Gwerth Llyfr Net ar 31 Gorffennaf 2008	95725	9421	4626	109772
Gwerth Llyfr Net ar 1 Awst 2007	94056	8613	3966	106635
Etifeddwyd	5051			5051
Ariannwyd gan Grant Cyfalaf	25429	7808	3077	36314
Arall	65245	1613	1549	68407
Gwerth Llyfr Net ar 31 Gorffennaf 2008	95725	9421	4626	109772

Cynhwysir dan Tir ac Adeiladau Rhyddfraint ar 1 Awst 2007 a 31 Gorffennaf 2008 £9,114k sy'n ymwneud â Thir Rhyddfraint na chodir dibrisiant arno.

Cyllidwyd rhai adeiladau o ffynonellau'r Trysorlys: pe gwerthid yr adailadau hyn, byddai'n rhaid i'r Brifysgol ildio'r enillion i'r Trysorlys neu eu defnyddio'n unol â Memorandwm Ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cynhwysir dan Tir ac Adeiladau Rhyddfraint ar 31 Gorffennaf 2008 £210k sy'n ymwneud ag adeiladau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu ac na chodir dibrisiant arnynt. Yn flaenorol roedd y costau hyn yn cael eu dibrisio o'r flwyddyn pryd gwnaethant ddigwydd.

Mae cael gwared ar Dir ac Adeiladau Rhyddfraint yn ymwneud â diffygion rhai adeiladau.

13. ASEDION DIRIAETHOL (parhad)
Prifysgol

	Tir ac Adeiladau Rhydd-fraint	Gwell-iannau Prydles	Cyfarpar	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Prisiad/Cost				
Ar 1 Awst 2007				
Prisiad	67997			67997
Cost	49574	639	15172	65385
Ychwanegiadau ar Gost	4902		1549	6451
Gwerthiannau				
Prisiad	(1310)			(1310)
Cost	(56)		(137)	(193)
Ar 31 Gorffennaf 2008				
Prisiad	66687			66687
Cost	54420	639	16584	71643
Dibrisiant				
Ar 1 Awst 2007	23754	311	11985	36050
Codwyd am y Flwyddyn	2251	79	1449	3779
Dilewyd ar Werthiannau	(390)		(137)	(527)
Ar 31 Gorffennaf 2008	25615	390	13297	39302
Gwerth Llyfr Net ar 31 Gorffennaf 2008	95492	249	3287	99028
Gwerth Llyfr Net ar 1 Awst 2007	93817	328	3187	97332
Etifeddwyd	5051			5051
Ariannwyd gan Grant Cyfalaf	25429	226	2040	27695
Arall	65012	23	1247	66282
Gwerth Llyfr Net ar 31 Gorffennaf 2008	95492	249	3287	99028

Pe na bai Tir ac Adeiladau Rhyddfraint wedi cael eu prisio byddent wedi cael eu cynnwys fel y symiau canlynol:

Cost	82052
Cyfanswm Dibrisiant wedi ei seilio ar Gost	16514
Gwerth Llyfr Net wedi ei seilio ar Gost ar 31 Gorffennaf 2008	65538

Asedion a ddelir dan brydlesi ariannol a'u troi'n gyfalaf mewn cyfarpar yw:

Cost	744
Cyfanswm Dibrisiant	92
Gwerth Llyfr Net ar 31 Gorffennaf 2008	652

14. BUDDSODDIADAU

14A. BUDDSODDIADAU ASEDION SEFYDLOG	Cyfunol £000	Prifysgol £000
Buddsoddiadau ar Gost		
Ar 1 Awst 2007		
Buddsoddiad mewn Is-Gwmniau		4260
Buddsoddiad mewn Mentrau ar y Cyd		112
Benthyciad i'r Fenter ar y Cyd	1810	1810
Buddsoddiad yn CVCP Properties Plc	33	33
Cyfanswm Cost	1843	6215
Cael gwared ar Fuddsoddiad mewn Menter ar y Cyd		(62)
Ar 31 Gorffennaf 2008		
Buddsoddiad mewn Is-Gwmniau		4260
Buddsoddiad mewn Mentrau ar y Cyd		50
Benthyciad i'r Fenter ar y Cyd	1810	1810
Buddsoddiad yn CVCP Properties Plc	33	33
Cyfanswm Cost	1843	6153
Gostyngiad mewn Gwerth		
Ar 1 Awst 2007		(3115)
Darparwyd yn y Flwyddyn		(72)
Gostyngiad mewn Gwerth ar 31 Gorffennaf 2008		(3187)
Buddsoddiad Net ar 31 Gorffennaf 2008	1843	2966
Buddsoddiad mewn Gwarantau Rhestredig ar Werth y Farchnad		
Ar 1 Awst 2007	446	446
Ailbrisiad	(51)	(51)
Ar 31 Gorffennaf 2008	395	395
Cyfanswm ar Gost a Phrisiad ar 31 Gorffennaf 2008	2238	3361

14B. BUDD MEWN MENTRAU AR Y CYD A CHYFRANOGION	Cyfunol	
	2007/08 £000	2006/07 £000
Cyfran Asedion/(Rhwymedigaethau) Net ar 1 Awst	29	(287)
Cyfran (Diffyg)/Gweddill am y Flwyddyn	(74)	316
Cael gwared ar Fudd mewn Menter ar y Cyd	(236)	
Cyfran (Rhwymedigaethau)/Asedion Net ar 31 Gorffennaf	(281)	29

14. BUDDSODDIADAU (parhad)

14C. BUDDSODDIAD MEWN IS-GWMNÏAU A MENTRAU AR Y CYD

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd buddsoddiadau mewn is-gwmnïau a mentrau ar y cyd fel a ganlyn:

	% Daliad	Cyfranddaliad Cyfalaf a Ddelir	Gwlad y Cofrestr-iad	Natur y Busnes
Industrial Development Bangor (UWB) Limited	100%	140,000 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Cymru	Offerwaith electronig
Archebodd y Brifysgol y daliad am gost o £80,000, ac mae'r Cwmni hefyd wedi gwneud dyroddiad cyfalaf o £60,000.				
Duostore Limited	100%	7,906,644 Cyfranddaliadau Cyffredin 50c	Cymru	Datblygiad eiddo y Brifysgol
Daliad a archebwyd gan y Brifysgol ar gost o £4,180,320.				
UWB Enterprises Limited	100%	2 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Cymru	Masnachol cyffredinol
VT Ocean Sciences Limited	50%	50,000 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Lloegr	Llogi llong ymchwil
Daliad ar sail Menter ar y Cyd â Vosper Thorneycroft (UK) Limited. Diwedd y flwyddyn ariannol i VTOcean Sciences Ltd yw 31 Mawrth ac mae'r cyfrifon cyfunol yn cynnwys y canlyniadau ariannol wedi eu seilio ar y dyddiad diwedd blwyddyn hwn.				
Centre for Advanced Software Technology Limited	100%	2 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Cymru	Technoleg meddalwedd cyfrifiadurol
North West Wales Management Development Centre Ltd	100%	1 Cyfranddaliad Cyffredin £1	Cymru	Rhaglenni datblygu rheolaeth

Cafodd y Brifysgol wared ar ei daliad yn Business & Management Education Limited i Brifysgol Manceinion ar 5 Hydref 2007.

15. BUDDSODDIADAU ASEDION GWADDOL
Cyfunol a Phrifysgol

	2007/08 £000	2006/07 £000 Ailddatgan
Ar 1 Awst	5055	4782
Ychwanegiadau	320	562
Gwerthiannau	(582)	(527)
(Dibrisiad)/Adbrisiad ar Ailbrisiad	(508)	359
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn Daliannau Arian	218	(121)
Ar 31 Gorffennaf	4503	5505
Stociau Llog Sefydlog	570	652
Soddgyfrannau	3128	3816
Daliannau Banc	805	587
	4503	5055
Llog Sefydlog a Soddgyfrannau ar Gost	2893	3425

16. DYLEDWYR

	Cyfunol		Prifysgol	
	2008 £000	2007 £000	2008 £000	2007 £000
Symiau dyladwy o fewn un flwyddyn:				
Dyledwyr	6031	7424	5372	5385
Trethiant Adferadwy	21	1385		
Rhagdaliadau ac Incwm Cronedig	6355	4681	6181	4298
Swm dyledus o'r Fenter ar y Cyd	54	156	54	156
Rhagdaliadau i'r Fenter ar y Cyd	150	50	150	50
Symiau dyledus o Is-gwmniau			756	968
	12611	13696	12513	10857
Symiau dyladwy ar ôl un flwyddyn:				
Rhagdaliadau i'r Fenter ar y Cyd	629	678	629	678
	13240	14374	13142	11535

Mae'r rhagdaliad i'r Fenter ar y Cyd yn cynnwys costau sefydlog am ddefnyddio'r llong sydd yn eiddo'r Fenter ar y Cyd a dalwyd ymlaen llaw ar gyfer cyfnod y cytundeb defnydd. Codir y rhagdaliad ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros gyfnod y cytundeb.

17. CREDYDWYR: SYMIAU DYLADWY O FEWN UN FLWYDDYN

	Cyfunol		Prifysgol	
	2008 £000	2007 £000	2008 £000	2007 £000
Morgeisiau a Benthyciadau Anwarantedig	774	640	774	640
Rhwymedigaethau dan Brydlesi Ariannol	149		149	
Gorddrafftiau Banc Anwarantedig		697		
Credydwyr	7752	6858	7423	5654
Nawdd Cymdeithasol a Threthiant Arall Taladwy	1666	1566	1643	1479
Croniadau	2745	2565	2235	2403
Incwm Gohiriedig	8237	8374	8013	8221
Symiau dyledus i Fentrau ar y Cyd	58	55	58	55
Symiau dyledus i Is-gwmniau			379	190
	21381	20755	20674	18642

18. CREDYDWYR: SYMIAU DYLADWY AR ÔL MWY NAG UN FLWYDDYN

	Cyfunol		Prifysgol	
	2008 £000	2007 £000	2008 £000	2007 £000
Morgeisiau ar eiddo preswyl ac arall i'w had-dalu mewn rhandaliadau dros gyfnodau yn dod i ben rhwng 2015 a 2032	14914	15714	11664	12464
Rhwymedigaethau dan Brydlesi Ariannol	503		503	
Benthyciad a dderbyniwyd o Is-gwmni			350	350
	15417	15714	12517	12814
Rhagdaliad a dderbyniwyd o Is-gwmni			29	109
	15417	15714	12546	12923
(a) Benthyciadau banc i'w had-dalu fel a ganlyn:				
Rhwng un a dwy flynedd	975	698	975	698
Rhwng dwy a phum mlynedd	2138	1566	2138	1566
Ymhen pum mlynedd neu fwy	11801	13450	8901	10550
Cyfanswm	14914	15714	12014	12814

Mae morgeisiau ar eiddo preswyl ac eraill yn cynnwys benthyciadau cyfradd llog sefydlog a newidiol, gyda'r olaf wedi eu cysylltu â naill ai LIBOR neu gyfradd sylfaenol y banc. Cyfradd llog o 7.3% sydd i'r benthyciad cyfradd sefydlog.

(b) Y rhwymedigaethau prydles ariannol net y mae'r Brifysgol wedi ymrwymo iddynt yw:

Rhwng un a dwy flynedd	149		149	
Rhwng dwy a phum mlynedd	298		298	
Ymhen pum mlynedd neu fwy	56		56	
Cyfanswm	503		503	

19. DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A CHODIANNAU
Cyfunol a Phrifysgol

	Ailstrwythuro Staff
	£000
Ar 1 Awst 2007	447
Defnyddiwyd yn ystod y Flwyddyn	(447)
Ar 31 Gorffennaf 2008	-

20. GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG
Cyfunol

	Cyngor Cyllido	Grantiau a Rhoddion Eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Ar 1 Awst 2007			
Adeiladau	15256	15470	30726
Cyfarpar	2014	1115	3129
Arall		2138	2138
Cyfanswm	17270	18723	35993
Arian a dderbyniwyd			
Adeiladau	1372	1926	3298
Cyfarpar	175	1166	1341
Cyfanswm	1547	3092	4639
Rhyddhawyd i Incwm a Gwariant			
Adeiladau (Nodiadau 2, 5 a 7)	362	425	787
Cyfarpar (Nodiadau 2, 4 a 7)	690	703	1393
Arall (Nodyn 4)		50	50
Cyfanswm (Nodyn 11)	1052	1178	2230
Ar 31 Gorffennaf 2008			
Adeiladau	16266	16971	33237
Cyfarpar	1499	1578	3077
Arall		2088	2088
Cyfanswm	17765	20637	38402

20. GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG (Parhad)
Prifysgol

	Cyngor Cyllido	Grantiau a Rhoddion Eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Ar 1 Awst 2007			
Adeiladau	15256	8299	23555
Cyfarpar	2014	602	2616
Arall		2138	2138
Cyfanswm	17270	11039	28309
Arian a dderbyniwyd			
Adeiladau	1372	1356	2728
Cyfarpar	175	380	555
Cyfanswm	1547	1736	3283
Rhyddhawyd i Incwm a Gwariant			
Adeiladau	362	266	628
Cyfarpar	690	441	1131
Arall		50	50
Cyfanswm	1052	757	1809
Ar 31 Gorffennaf 2008			
Adeiladau	16266	9389	25655
Cyfarpar	1499	541	2040
Arall		2088	2088
Cyfanswm	17765	12018	29783

Mae'r grantiau cyfalaf gohiriedig eraill yn ymwneud ag arian a dderbyniwyd gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol fel rhan o'r cyllid ar gyfer sefydlu cwmni menter ar y cyd VT Ocean Sciences Limited.

21. GWADDOLION
Cyfunol a Phrifysgol

	Parhaol		Gwariadwy	2008	2007
	Digyfyngiad £000	Cyfyngedig £000	Cyfyngedig £000	Cyfanswm £000	Cyfanswm £000 Ailddatgan
Gweddillion ailddatgan					
Cyfalaf	159	2178	2249	4586	4319
Incwm Cronnus		358	111	469	463
Ar 1 Awst	159	2536	2360	5055	4782
Incwm Buddsoddi	7	116	98	221	189
Gwariant	(7)	(104)	(154)	(265)	(275)
(Dibrisiant)/Adbrisiant Buddsoddiadau	(19)	(249)	(240)	(508)	359
Ar 31 Gorffennaf	140	2299	2064	4503	5055
Cynrychiolir gan:					
Cyfalaf	140	1929	1945	4014	4586
Incwm Cronnus		370	119	489	469
	140	2299	2064	4503	5055

22. CRONFA WRTH GEFN AILBRISIAD
Cyfunol a Phrifysgol

	2007/08 £000	2006/07 £000
Ailbrisiadau		
Ar 1 Awst ac ar 31 Gorffennaf	45066	45034
Ailbrisiad yn y flwyddyn	(51)	32
Ar 31 Gorffennaf	45015	45066
Cyfraniadau i Ddibrisiant		
Ar 1 Awst	(10213)	(9601)
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn (Nodyn11)	(599)	(612)
Ar 31 Gorffennaf	(10812)	(10213)
Ad-daliad Prifswm Dyled		
Ar 1 Awst	256	256
Ar 31 Gorffennaf	256	256
Realeiddiad ar Werthiannau/Amhariadau		
Ar 1 Awst	(3938)	(2155)
Rhyddhawyd yn y Flwyddyn	(479)	(1783)
Ar 31 Gorffennaf	(4417)	(3938)
Swm Ailbrisiad Net		
Ar 31 Gorffennaf	30042	31171

23. SYMUDIAD AR GRONFA WRTH GEFN GYFFREDINOL AC EITHRIO RHWYMEDIGAETH PENSIWN

	Cyfunol £000	Prifysgol £000
Gweddill ar Gyfer y Flwyddyn Wedi ei Gadw	2975	3833
Cyfraniadau i Ddibrisiant a ryddhawyd o Gronfa wrth gefn Ailbrisiad (Nodyn 22)	599	599
Realeiddiad ar Amhariadau Asedion Sefydlog (Nodyn 22)	479	479
Diffyg Cost Hanesyddol am y Flwyddyn	4053	4911
Credyd Pensiwn FRS17 (Nodyn 31)	(106)	(106)
Adenillion Net ar Asedion Cynllun Pensiwn (Nodyn 31)	(828)	(828)
Ar 1 Awst 2007	33917	34548
Ar 31 Gorffennaf 2008	37036	38525

24. YMRWYMIADAU CYFALAF

	Cyfunol		Prifysgol	
	2007/08 £000	2006/07 £000	2007/08 £000	2006/07 £000
Ymrwymiadau a awdurdodwyd ac a gontractwyd ar 31 Gorffennaf	2722	3034	2722	1108

25. CYSONIAD GWEDDILL/(DIFFYG) GWEITHREDOL CYFUNOL A LLIF ARIAN NET O'R GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

	2007/08 £000	2006/07 £000
Gweddill/(Diffyg) ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion Sefydlog ar Brisiad a Gwaredu Asedion ond cyn cyfran Diffyg Mentrau ar y Cyd a Chyfranogion	3005	(5013)
Dibrisiant (Nodyn 13)	4388	4417
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig wedi eu rhyddhau i Incwm (Nodyn 20)	(2230)	(2523)
Incwm Buddsoddi (Nodyn 6)	(2197)	(1345)
Colled ar Werthiant budd mewn Menter ar y Cyd/Is-gwmni	236	225
Colled ar Amhariad Asedion Sefydlog	976	6841
Llog Taladwy (Nodyn 10)	877	898
(Credyd)/Costau Pensiwn FRS17 (Nodyn 31)	(106)	293
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn Stociau	38	(58)
Gostyngiad/(Cynnydd mewn Dyledwyr	1134	(1777)
Cynnydd mewn Credydwyr	1040	150
(Gostyngiad)/ Cynnydd mewn Darpariaethau	(447)	170
Llif Arian Net i mewn o Weithgareddau Gweithredol	6714	2278

26. CYLLIDO

	£000
Ar 1 Awst 2006	13824
Benthyciadau Newydd	3250
Ad-daliadau Cyfalaf	(720)
Swm Net a Gafwyd yn y flwyddyn	2530
Ar 31 Gorffennaf 2007	16354
Ar 1 Awst 2007	16354
Prydlesi Ariannol Newydd	744
Ad-daliadau Cyfalaf	(666)
Elfen Gyfalaf Taliadau Rhent Prydles Ariannol	(92)
Swm Net a Gafwyd yn y Flwyddyn	(14)
Ar 31 Gorffennaf 2008	16340

27. DADANSODDIAD O NEWIDIADAU YN Y (DDYLED)/CRONFEYDD CYFUNOL NET

	Ar 1 Awst £000 Ailddatgan	Llifau Arian £000	Newidiadau Eraill £000	Ar 31 Gorffennaf £000
Buddsoddiadau Ased Gwaddol – Arian (Nodyn 15)	587	218		805
Arian mewn Llaw ac yn y Banc	4954	(2628)		2326
Gorddrafftiau Banc	(697)	697		
	4844	(1713)		3131
Adneuon Tymor Byr	9509	5305		14814
Dyled yn ddyledus o fewn un flwyddyn	(640)	666	(800)	(774)
Dyled yn ddyledus ar ôl un flwyddyn	(15714)		800	(14914)
Prydlesi Ariannol		(652)		(652)
	(2001)	3606	-	1605

28. ADENILLION AR FUDDSODDIADAU A CHYNNAL CYLLID

	Nodyn	2007/08 £000	2006/07 £000 Ailddatgan
Incwm o Waddolion	21	221	189
Incwm o Fuddsoddiadau Ased Sefydlog	6	20	24
Incwm o Fuddsoddiadau Tymor Byr	6	1010	580
Llog Arall a Dderbyniwyd	6	118	118
Llog a Dalwyd	10	(863)	(898)
Elfen Llog o Daliad Prydles Ariannol	10	(14)	
		492	13

29. GWARIANT CYFALAF CYFUNOL A BUDDSODDIAD CYLLIDOL

	Nodyn	2007/08 £000	2006/07 £000
Asedion Diriaethol a Gafwyd	13	(8501)	(15147)
Buddsoddiadau Ased Gwaddol a Gafwyd		(320)	(562)
Cyfanswm Asedion Sefydlog a Gwaddol a Gafwyd		(8821)	(15709)
Derbyniadau o Werthu Asedion Gwaddol		582	527
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a Dderbyniwyd	20	4639	10455
		(3600)	(4727)

30. RHEOLAETH ADNODDAU RHYDD

	2007/08 £000	2006/07 £000
Ychwanegiadau/(Dileadau) o Adneuon Tymor Byr	5305	(3068)
Symudiad mewn Buddsoddiadau Asedion Gwaddol - Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian	218	(121)
	5523	(3189)

31. CYNLLUNIAU PENSIWN

Y ddau brif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) a Chynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978. Delir asedion y cynlluniau mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae'r USS yn darparu buddion wedi eu seilio ar gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer gweithwyr academaidd ac academaidd-gysylltiedig holl Brifysgolion y DU a rhai gweithwyr eraill. Mae Cynllun Prifysgol Bangor yn darparu buddion cyffelyb i staff eraill y Brifysgol. Prisir y cronfeydd pensiwn bob tair blynedd gan actwari annibynnol â chymwysterau proffesiynol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol.

Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

Mae'r sefydliad yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion, sef cynllun budd-dâl diffiniedig sy'n cael ei ariannu o'r tu allan a heb fod yn rhan o'r Ail Bensiwn Gwladol. Cedwir asedion y cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan yr ymddiriedolwyr, Universities' Superannuation Scheme Ltd.

Oherwydd natur gyd-fuddiannol y cynllun ni all y sefydliad bennu beth yw ei chyfran o asedion a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol ac, felly, yn unol â gofynion FRS 17: Buddion Ymddeol, mae'n ystyried y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfrannu diffiniedig. O ganlyniad, mae'r swm a roddir i'r cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun dros y cyfnod cyfrifyddu.

Gwnaed prisiad actiwaraidd diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2005. Gwnaed y prisiad gan ddefnyddio'r dull uned amcanol. Y tybiaethau sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar ganlyniad y prisiad yw'r rhai sy'n ymwneud â chyfradd elw ar fuddsoddiadau (h.y. cyfraddau llog), cyfraddau cynnydd mewn cyflog a phensiynau a'r cyfraddau marwolaeth a ragdybir. Mewn perthynas â rhwymedigaethau gwasanaeth blaenorol cafwyd y tybiaethau ariannol o elw'r farchnad a oedd yn bodoli ar ddyddiad y prisiad. Tybid y byddai prisiad cyfradd llog yn 4.5% y flwyddyn, y byddai cynnydd mewn cyflogau yn 3.9% y flwyddyn (yn ogystal â lwfans ychwanegol ar gyfer cynnydd mewn cyflogau o ganlyniad i oed a dyrchafiad a swm pellach o £800m i adlewyrchu profiad diweddar) ac y byddai pensiynau'n cynyddu 2.9% y flwyddyn. Mewn perthynas â rhwymedigaethau gwasanaeth yn y dyfodol tybid y byddai prisiad cyfradd llog yn 6.2% y flwyddyn, yn cynnwys elw buddsoddi ychwanegol o 1.7% y flwyddyn, y byddai cynnydd mewn cyflogau yn 3.9% y flwyddyn (yn ogystal â lwfans ychwanegol ar gyfer cynnydd mewn cyflogau o ganlyniad i oed a dyrchafiad) ac y byddai pensiynau'n cynyddu 2.9% y flwyddyn.

Ar ddyddiad y prisiad, roedd gwerth asedion y cynllun yn £21,740m ac roedd gwerth rhwymedigaethau gwasanaeth blaenorol yn £28,308m, yn dangos diffyg o £6,568 miliwn. Roedd yr asedion yn ddigonol felly ar gyfer 77% o'r buddion a oedd wedi crynhoi i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion yn y dyfodol.

Prisiodd yr actwari'r cynllun ar nifer o seiliau eraill ar y dyddiad prisio. Gan ddefnyddio rhagdybiaethau Isafswm Gofynion Cyllido a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 1995, roedd y cynllun wedi ei gyllido 126% ar y dyddiad hwnnw; dan reoliadau'r Gronfa Gwarchod Pensiynau, a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004, roedd wedi ei gyllido 110%; ar sail prynu allan (h.y. rhagdybio bod y Cynllun wedi dod i ben ar y dyddiad prisio) byddai'r asedion wedi bod tua 74% o'r swm angenrheidiol i sicrhau holl fuddion USS gyda chwmni yswiriant; a chan ddefnyddio'r fformiwla FRS17 fel pe bai USS yn gynllun un cyflogwr, roedd yr actwari'n amcangyfrif y byddai'r lefel gyllido wedi bod tua 90%.

Er 31 Mawrth 2005 mae lefel cyllido'r cynllun wedi mynd trwy gryn ansefydlogrwydd. Roedd yr actwari wedi amcangyfrif bod y lefel gyllido wedi cynyddu i 91% ar 31 Mawrth 2007 ond ei bod wedi gostwng i 77% ar 31 Mawrth 2008. Mae'r amrywiad hwn yn lefel cyllido'r cynllun i'w briodoli i gyfuniad ansefydlogrwydd elw ar asedion y cynllun yn y cyfnod er 31 Mawrth 2005 o'i gymharu â'r elw a nodwyd yn y rhagdybiaethau cyllido, a hefyd y newidiadau mewn elw giltiau, a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau'r cynllun. Mae'r lefelau cyllid hyn a amcangyfrifir wedi eu seilio ar y lefelau cyllid ar 31 Mawrth 2005, wedi eu haddasu i adlewyrchu perfformiad buddsoddi gwirioneddol y gronfa a newidiadau mewn elw giltiau (h.y. cyfradd llog y prisiad). Ar sail FRS17, gan ddefnyddio cyfradd disgownt bond AA o 6%, amcangyfrifodd yr actwari bod y lefel gyllido yn 104% ar 31 Mawrth 2008. Amcangyfrif o'r lefel gyllido wedi ei mesur ar sail prynu allan oedd tua 78%.

Roedd cyfradd y cyfraniad yr oedd ei hangen gan y sefydliad ar gyfer buddion gwasanaeth yn y dyfodol yn unig yn 14.3% o gyflogau pensiynadwy ar ddyddiad y prisiad ond penderfynodd y cwmni ymddiriedolwyr, ar gyngor yr actiwari, i gadw cyfradd cyfraniad y sefydliad yn 14% o gyflogau pensiynadwy.

31. CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

Gall gweddill neu ddiffygion, yn deillio o brisiadau yn y dyfodol, gael effaith ar ymrwymiadau cyfrannu'r sefydliad yn y dyfodol.

Cynllun "dyn olaf ar ei draed" yw USS; felly, pe bai unrhyw un o'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn USS yn mynd yn fethdalwr, bydd swm unrhyw ddiffyg mewn cyllid pensiwn (na ellir ei adfer fel arall) mewn perthynas â'r cyflogwr hwnnw yn cael ei rannu ar draws gweddill y cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun ac adlewyrchid hynny ym mhrisiad actiwaraidd nesaf y cynllun.

Mae'r prisiad actiwaraidd teirblynyddol ffurfiol nesaf i'w gynnal ar 31 Mawrth 2008. Adolygir y gyfradd gyfrannu fel rhan o bob prisiad.

Cyfanswm cost pensiynau i'r sefydliad oedd £4.452m (2007: £4.114m). Mae hyn yn cynnwys £568k (2007: £532k) o gyfraniadau dyledus ar ddyddiad y fantolen. Cyfradd y cyfraniad taladwy gan y sefydliad oedd 14% o gyflogau pensiynadwy.

Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun budd diffiniedig yn y DU, Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978. Caiff y gronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actiwari annibynnol â chymwysterau proffesiynol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol.

Mae'r tybiaethau a'r data eraill sy'n cael yr effaith fwyaf amlwg ar bennu lefelau cyfraniad fel a ganlyn:

Prisiadau actiwaraidd diweddaraf y mae data ar gael ar eu cyfer	1 Awst 2005
Elw buddsoddi y flwyddyn	5.9%
Cyfradd cynnydd yng nghyflogau y flwyddyn	4.5%
Cynnydd mewn pensiwn y flwyddyn	2.7%
Gwerth asedion ar y farchnad ar ddyddiad y prisiad diwethaf	£50.416 miliwn
Cyfran budd cronedig aelodau a gynhwyswyd gan brisiad actiwaraidd yr asedion	97%

Yn dilyn y prisiad actiwaraidd llawn ar 1 Awst 2005, cytunwyd ar gyfraniadau'n daladwy ar ôl 1 Awst 2006, fel canran o gyflog pensiynadwy, ar gyfradd o 17.2% (yn gostwng i 16.45% o 1 Tachwedd 2006) ar gyfer y cyflogwr a 6.35% (yn cynyddu i 7.10% o 1 Tachwedd 2006) ar gyfer yr aelod staff. Cyfanswm cost pensiynau i'r Brifysgol oedd £1,580k (2007: £1,528k).

Mae canlyniadau prisiad actiwaraidd llawn y gronfa ar 1 Awst 2005 wedi cael eu rhagamcanu i 31 Gorffennaf 2008, ac yna eu hailgyfrifo wedi eu seilio ar y tybiaethau canlynol:

	Ar 31 Gorff-ennaf 2008	Ar 31 Gorff-ennaf 2007
Cyfradd Cynnydd yn y Cyflogau	5.00%	5.10%
Cyfradd Cynnydd yn Nhaliadau Pensiwn	3.70%	3.30%
Cyfradd Gostyngiad ar gyfer Rhwymedigaethau	6.60%	5.70%
Tybiaeth Chwyddiant	3.70%	3.30%
Ailbrisiad Pensiynau Gohiriedig	3.70%	3.30%
Cyfran staff yn dewis ymddeoliad cynnar	100.00%	100.00%
Cyfran staff yn cyfnewid pensiwn am arian parod	0.00%	0.00%
Oes ddisgwyliedig pensiynwr cyfredol yn 65 oed:		
Gwryw:	18.5	18.5
Benyw:	21.5	21.5
Oes ddisgwyliedig pensiynwr yn y dyfodol yn 65 oed		
Gwryw:	20.3	20.3
Benyw:	23.2	23.2

31. CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

Asedion yn y cynllun a'r gyfradd elw ddisgwyliedig yn y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf oedd:

	Cyfradd Adennill Tymor Hir 2008	Gwerth 2008 £000	Cyfradd Adennill Tymor Hir 2007	Gwerth 2007 £000
Soddgyfrannau	7.90%	38380	8.00%	41915
Bondiau	5.50%	19470	5.25%	18074
Eiddo	7.90%	2634	8.00%	3285
Arian	4.90%	516	5.25%	457
Contractau Blwydd-dal	6.60%	47	5.70%	47
		61047		63778

Mesurwyd y symiau canlynol ar 31 Gorffennaf yn unol â gofynion FRS 17:

	2008 £000	2007 £000
Cyfanswm gwerth asedion ar y farchnad	61047	63778
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(63039)	(66147)
Diffyg yn y cynllun	(1992)	(2369)

Dadansoddiad o'r swm a godwyd i'r cyfrif incwm a gwariant:

	2008 £000	2007 £000
Cost Gwasanaeth Cyfredol	1949	2243
Cost Gwasanaeth Blaenorol	123	448
Ennill ar gwtogiad		(127)
	2072	2564

Dadansoddiad o incwm/(costau) cyllid pensiwn:

	2008 £000	2007 £000
Elw disgwyliedig ar asedion cynllun pensiwn	4610	3875
Llog ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(3782)	(3441)
Incwm cyllid pensiwn	828	434

31. CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddid mewn adroddiad o gyfanswm enillion a cholledion (AGED):

	2008 £000	2007 £000
Elw gwirioneddol namyn elw disgwyliedig ar gynllun pensiwn	(7612)	2283
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol Rhwymedigaethau'r cynllun	7055	4909
(Colled)/Ennill actiwaraidd a gydnabyddir yn AGED	(557)	7192

Mae symudiad yn niffyg y cynllun yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2008 £000	2007 £000
Diffyg yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	(2369)	(9702)
Symudiad yn ystod y flwyddyn:		
Costau cyfredol y gwasanaeth	(1949)	(2243)
Cyfraniadau cyflogwr	2178	2271
Cost gwasanaeth blaenorol	(123)	(448)
Incwm cyllid	828	434
(Colled)/Elw actiwaraidd	(557)	7192
Cwtogiad		127
Diffyg yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	(1992)	(2369)

Cysoni Asedion a Rhwymedigaethau:

	2008 £000	2007 £000
Cysoni Rhwymedigaethau		
Rhwymedigaethau ar ddechrau'r cyfnod	66147	67209
Cost gwasanaeth	1949	2243
Cost llog	3782	3441
Cyfraniadau staff	722	701
Cost gwasanaeth blaenorol	123	448
Ennill Actiwaraidd	(7055)	(4909)
Ennill ar gwtogiadau		(127)
Buddion a dalwyd	(2629)	(2859)
Rhwymedigaethau ar ddiwedd y cyfnod	63039	66147
Cysoni asedion		
Asedion ar ddechrau'r cyfnod	63778	57507
Elw disgwyliedig ar asedion	4610	3875
(Colled)/elw actiwaraidd	(7612)	2283
Cyfraniadau cyflogwr	2178	2271
Cyfraniadau staff	722	701
Buddion a dalwyd	(2629)	(2859)
Asedion ar ddiwedd y cyfnod	61047	63778

31. CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

Roedd hanes enillion a cholledion ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf fel a ganlyn:

	2008 £000	2007 £000	2006 £000	2005 £000	2004 £000
Gwahaniaeth rhwng yr elw disgwyliedig a gwirioneddol ar asedion y cynllun:					
Swm (£000s)	(7612)	2283	4151	6228	788
Canran o asedion y cynllun	(12%)	4%	7%	12%	2%
Profi enillion/(colledion) ar rwymedigaethau'r cynllun:					
Swm (£000s)			959		
Canran o werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun			1%		
Cyfanswm a gydnabyddir mewn adroddiad o gyfanswm enillion a cholledion:					
Swm (£000s)	(557)	7192	(816)	1577	(845)
Canran o werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	(1%)	11%	(1%)	3%	(2%)

32. YMRWYMIADAU ARIANNOL
Cyfunol a Phrifysgol

Ar 31 Gorffennaf ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo oedd:

	2008 £000	2007 £000
Tir ac Adeiladau		
Dod i ben o fewn un flwyddyn	73	11
Dod i ben rhwng dwy a phum mlynedd gynhwysol	248	190
Dod i ben mewn dros bum mlynedd	615	605
Arall		
Dod i ben o fewn un flwyddyn	36	6
Dod i ben rhwng dwy a phum mlynedd gynhwysol	203	253
Dod i ben mewn dros bum mlynedd	623	594
	1798	1659

33. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Oherwydd natur gweithrediadau'r Brifysgol a chyfansoddiad y Cyngor (wedi ei dynnu o sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat lleol) mae'n anorfod y gwneir, o bryd i'w gilydd, drafodion lle y gallai aelod o'r Cyngor fod â budd ynddynt. Cynhelir yr holl drafodion sydd yn cynnwys sefydliadau lle y gallai aelod o'r Cyngor fod â budd ynddynt o hyd braich ac yn unol â rheoliadau cyllidol y Brifysgol a threfn caffael normal.

Yn ystod y flwyddyn gwasanaethodd Yr Athro R M Jones, yr Is-Ganghellor, fel ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Coleg y Santes Fair, Bangor. Yn ystod y flwyddyn gyllidol 2007/08 derbyniwyd cyllid o £51k gan y Brifysgol oddi wrth Ymddiriedolaeth Coleg y Santes Fair, Bangor (2006/2007 £52k).

Mae nifer o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Ddatblygu hefyd yn aelodau o'r Cyngor neu'n uwch weithwyr yn y Brifysgol. Amcan yr Ymddiriedolaeth Ddatblygu yw cefnogi gweithgareddau'r Brifysgol trwy gyfrwng rhoddion a derbyniwyd cyfanswm o £190k (2006/2007 £435k) oddi wrth yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn.

34. ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL

Mae'r addasiad blwyddyn flaenorol yn ymwneud â chyflwyno SORP 2007 a fabwysiadwyd am y tro cyntaf yn 2007/08. Arweiniodd hyn at ymdrin yn wahanol â rhai balansau a gyfrifwyd o'r blaen fel cronfeydd gwaddol. Mae'r effaith ar addasiad y flwyddyn flaenorol ar y sefyllfa a adroddwyd yn flaenorol ar 31 Gorffennaf 2007 fel a ganlyn:

Cyfunol	Buddsoddiadau Asedion Gwaddol £000	Buddsoddiadau Asedion Sefydlog £000	Arian yn y Banc ac mewn Llaw £000
Ar 1 Awst 2006 – adroddwyd o'r blaen	5264	1843	1025
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(482)	414	68
	4782	2257	1093
Symudiad 2006/07 – adroddwyd o'r blaen	305		3861
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(32)	32	
Ailddatgan ar 31 Gorffennaf 2007	5055	2289	4954

	Cronfeydd Gwaddol £000	Cronfeydd Cyffredinol £000	Cronfeydd Adbrisio £000
Ar 1 Awst 2006 – adroddwyd o'r blaen	5264	26090	33534
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(482)	482	
	4782	26572	33534
Symudiad 2006/07 – adroddwyd o'r blaen	305	4976	(2395)
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(32)		32
Ailddatgan ar 31 Gorffennaf 2007	5055	31548	31171

Prifysgol	Buddsoddiadau Asedion Gwaddol £000	Buddsoddiadau Asedion Sefydlog £000	Arian yn y Banc ac mewn Llaw £000
Ar 1 Awst 2006 – adroddwyd o'r blaen	5264	5152	217
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(482)	414	68
	4782	5566	285
Symudiad 2006/07 – adroddwyd o'r blaen	305	(2052)	3737
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(32)	32	
Ailddatgan ar 31 Gorffennaf 2007	5055	3456	4022

	Cronfeydd Gwaddol £000	Cronfeydd Cyffredinol £000	Cronfeydd Adbrisio £000
Ar 1 Awst 2006 – adroddwyd o'r blaen	5264	26585	33534
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(482)	482	
	4782	27067	33534
Symudiad 2006/07 – adroddwyd o'r blaen	305	5112	(2395)
Trosglwyddiad parthed Gwaddolion	(32)		32

Ailddatgan ar 31 Gorffennaf 2007	5055	32179	31171

35. CRONFEYDD MYNEDIAD A CHALEDI

	2007/08 £000	2006/07 £000
Gweddill heb ei wario ar 1 Awst	4	9
Grantiau Cyngor	528	421
Llog a enillwyd	7	3
	539	433
Talwyd i'r Myfyrwyr	(530)	(429)
Gweddill heb ei wario ar 31 Gorffennaf	9	4

Mae grantiau'r Cyngor ar gael i'r myfyrwyr yn unig: mae'r Brifysgol yn gweithredu fel cyfrwng talu yn unig. Felly, mae'r grantiau a'r taliadau cysylltiedig wedi eu heithrio o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

36. BWRSARIAETHAU

Y Brifysgol gw'r asiant sy'n talu ar ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Llywodraeth y Cynulliad fwrsariaethau a threuliau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau nyrsio a hyfforddi athrawon. Y symiau a delir yw:

	2007/08 £000	2006/07 £000
Nyrsio	4643	4855
Hyfforddi Athrawon	1315	1388
	5958	6243

Mae'r bwrsariaethau a'r taliadau cysylltiedig wedi eu heithrio o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Atodiad
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

CYMAREBAU CYLLIDOL

	2007/08 Cyfunol	2006/07 Cyfunol Ailddatgan
Cymhareb Grantiau'r Cyngor i'r Cyfanswm Incwm	38.00%	41.85%
Cymhareb Ffioedd Cartref a Chontractau Addysg i'r Cyfanswm Incwm	21.15%	18.57%
Cymhareb Ffioedd Rhyngwladol i'r Cyfanswm Incwm	5.13%	4.11%
Cymhareb Incwm Ymchwil i'r Cyfanswm Incwm	13.92%	12.12%
Cymhareb Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd i'r Cyfanswm Incwm	8.32%	9.77%
Cymhareb Gweddill/(Diffyg) Cost Hanesyddol am y flwyddyn i'r Cyfanswm Incwm	3.70%	(2.24%)
Rhwymedigaethau Tymor-hir a Darpariaethau i Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac eithrio Rhwymedigaeth Pensiwn	41.63%	47.65%
Cymhareb Asedion Rhydd i Rwymedigaethau Cyfredol	0.80	0.69
Cymhareb Asedion Cyfredol i Rwymedigaethau Cyfredol	1.43	1.40
Diwrnodiau Cyfanswm Incwm a gynrychiolir gan Ddyledwyr	45	51
Diwrnodiau Asedion Hylif Net i Gyfanswm Gwariant	61	52

Mae'r Cyfanswm Incwm yn cynnwys cyfran o incwm y Fenter ar y Cyd.